

Rhif: WG42890



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio

Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

Hydref 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-461-7

Cynnwys

Cynnwys	2
Crynodeb gweithredol	3
1. Trosolwg o'r prosiect.....	5
2. Methodoleg ymgynghori.....	8
2.1. Canllawiau.....	8
2.2. Dull ymgynghori	8
2.3. Ymgynghoreion.....	9
3. Offer ymgynghori.....	10
3.2. Cam 1: Briffiad y prosiect/ymgysylltu cynnar	10
3.3. Cam 2: Ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio	13
4. Canlyniadau, materion ac ymatebion yr ymgynghoriad.....	16
4.1. Ymgysylltu Cynnar	16
4.2. Ymgynghoriad PAC	16
5. Casgliad.....	45

Crynodeb gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys, wedi datblygu cynigion ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd ar safle glofa wyneb a golchfa lo yn Onllwyn a Nant Helen ym mhen Cymoedd Dulais a Thawe. Mae'r cynigion yn ffurfio rhan bwysig ychwanegol i strategaeth adnewyddu'r safle a gynigir gan Celtic Energy, gan weithredu fel sbardun i arloesedd, buddsoddiad a thwf yn y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, y DU yn ehangach ac yn rhyngwladol.

Mae ymgysylltiad cynhwysfawr ag ystod eang o randdeiliaid yn sylfaenol i ddatblygu'r cynigion gorau posib a, mewn ymateb i gymhlethdodau'r prosiect hwn, cynhaliwyd ymgysylltiad/ymgyngoriad fesul cam i alluogi trigolion a rhanddeiliaid lleol i helpu i lywio'r uwchgynllun ar gyfer y safle.

Fel rhan o ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y prosiect, cynhaliwyd gwaith 'profi marchnad sylfaenol' helaeth gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd. Mae hyn wedi galluogi archwilio anghenion y busnes ac ymgorffori cyngor technegol yn y dyluniad cychwynol. Yn sgil hynny, ffurfiodd y cynllun hwn sail briffiad y prosiect ac ymgysylltu cynnar gyda thrigolion ac ystod eang o randdeiliaid lleol a chymunedol (2 Gorffennaf - 7 Hydref 2019).

Roedd ymgysylltu cynnar yn cynnwys gwybodaeth ar-lein, cyfres o gyfarfodydd/sesiynau briffio a digwyddiadau galw heibio cymunedol. Anogwyd preswylwyr a rhanddeiliaid i ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dyluniad cychwynol ac i helpu i nodi sut y gallai'r prosiect sicrhau'r buddion cymdeithasol ac economaidd mwyaf posib, wrth leihau effeithiau amgylcheddol.

Daeth mwy na 450 o bobl i'r digwyddiadau ymgysylltu cynnar hyn i drafod y cynigion oedd yn cael eu datblygu gydag aelodau o dîm y prosiect, a chafwyd mwy na 70 o ymatebion (drwy holiadur, e-byst a thros y ffôn). Roedd y mwyafrif o bobl yn gefnogol o'r prosiect a'r buddion y byddai'n eu cynnig i'r ardal leol ac ehangach. Mae materion allweddol a godwyd gan bobl leol, gan gynnwys sŵn, dirgryniad, ansawdd aer a llygredd golau, wedi cael eu hystyried, ac aethpwyd i'r afael â hwy yn y cais cynllunio amlinellol drafft yr ymgynghorwyd arno fel rhan o'r ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio (17 Medi i 14 Hydref). Codwyd mater tir cyffredin a hawliau tramwy cyhoeddus hefyd, yr eir i'r afael ag ef fel rhan o ymgynghoriad ar wahân a arweinir gan Gyngor Sir Powys.

Oherwydd canllawiau'r Llywodraeth i helpu i leihau lledaeniad Coronafeirws, cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol ar-lein, a chynhaliwyd trafodaethau dros y ffôn neu drwy gyfarfodydd rhithwir Zoom neu Microsoft Teams. Roedd tudalen we ymgynghoriad y prosiect yn cynnwys drafft o'r dogfennau cynllunio, ac yn ogystal â Dogfen Gwyno'r Ymgynghoriad a Chrynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol, ynghyd â dulliau adborth i annog pobl i rannu eu meddyliau am yr uwchgynllun amlinellol drafft. Roedd copïau caled o ddogfennau allweddol yr ymgynghoriad ar gael ar gais.

Derbyniwyd cyfanswm o ddeuddeg ymateb gan ymgynghorwyr arbenigol ac aethpwyd i'r afael â'u sylwadau yn adran 5.1. Er mwyn mynd i'r afael â'r sylwadau a godwyd, cynhaliwyd sawl arolwg ychwanegol (gan gynnwys arolwg o'r effaith weledol yn ystod y nos ac arolygon traffig) yn ogystal â diweddarau'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu

(CEMP), y Datganiad Amgylcheddol (ES) a'r Asesiad Traffig i gefnogi cyflwyno'r cais cynllunio.

Derbyniwyd cyfanswm o 63 o ymatebion gan gymdogion, ymgynghoreion cymunedol, perchen-feddianwyr a'r gymuned ehangach - trwy'r holiadur adborth, e-byst a galwadau ffôn. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cydnabod y buddion economaidd y byddai'r prosiect yn eu cynnig i'r ardal gan gynnwys swyddi newydd, cyfleoedd hyfforddi, potensial ar gyfer twristiaeth a chymorth i'r gadwyn gyflenwi leol. Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith negyddol bosib ar amwynderau lleol a lles preswylwyr, yn arbennig ynghylch y potensial y byddai gwaith ar y gweill 24/7, yn ogystal ag effeithiau traffig, dirgryniad a sŵn, a llygredd aer a golau. Aethpwyd i'r afael â'r sylwadau hyn yn adran 5.2

Mae'r Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio hwn yn nodi pwy yr ymgynghorwyd â nhw; sut yr ymgynghorwyd â nhw; sut y cawsont eu hysbysu ynghylch y broses ymgysylltu/ymgynghori; yr adborth a dderbyniwyd; a sut yr ystyriwyd ac yr ymatebwyd i sylwadau fel y bo'n briodol yn y cais cynllunio.

1. Trosolwg o'r prosiect

- 1.1.** Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, wedi datblygu cynigion ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru ar safle glofa wyneb Nant Helen a safle golchfa glo Onllwyn ym mhen y Cymoedd Dulais a Thawe.
- 1.2.** Disgwylir i Celtic Energy roi'r gorau i weithrediadau glo ar safle Nant Helen, ac ar yr adeg honno bydd yn cael ei adfer o dan rwymedigaethau statudol a bennir ac a gydsyniwyd gan Gyngor Sir Powys. Cymeradwywyd y cais cyntaf (cyf. Cyngor Sir Powys: 19/1899/REM) ar gyfer adfer yr ardal waith bresennol ym mis Ebrill 2020.
- 1.3.** Diwygiodd Celtic Energy y cynllun adfer yn gynharach eleni er mwyn hwyluso'r prosiect Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Roedd yr ail gais cynllunio ar gyfer adeiladu gwrthgloddiau adfer cyflenwol i greu dau blatfform tiffurf dolennog (rhan mewn hafn a rhan ar yr arglawdd) â seilwaith draenio cysylltiedig a manau wedi'u tirwedu a chreu cynefinoedd. Dyluniwyd y cloddweithiau i alluogi rhaglen gloddweithiau'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd i symud ymlaen ochr yn ochr â'r cynigion adfer. Cymeradwywyd y cais cynllunio hwnnw (Cyngor Sir Powys cyf: 20/0738/FUL a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot cyf: P2020/0362) ar ddiwedd mis Gorffennaf 2020.
- 1.4.** Mae prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn cynnig cyfle i fuddsoddi'n sylweddol mewn rheilffyrdd yng Nghymru. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i adfywio rhwydwaith y rheilffyrdd trwy ddarparu gwasanaethau a stoc rholio (trenau a cherbydau) newydd, datrysiadau arloesol a rhaglen fuddsoddi sylweddol mewn gorsafoedd.
- 1.5.** Mae Bargaen Sector Rheilffyrdd Llywodraeth y DU (2018) yn amlinellu dull newydd sy'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i gynyddu arloesedd a chynhyrchiad. Ei nod yw sicrhau y dylai'r DU gyflawni buddion technoleg ddigidol newydd a bod ar flaen y gad yn fyd-eang o ran technoleg rheilffyrdd a datgarboneiddio, gan hybu allforion a sgiliau.
- 1.6.** Mae'r angen am gyfleuster profi o'r radd flaenaf i gynnal a chyflymu'r broses o gyflawni'r amcanion strategol hyn wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth y DU. Wrth i drenau newydd a chydrannau eraill gael eu cyflwyno i rwydwaith rheilffyrdd y DU, rhaid eu profi'n drylwyr cyn iddynt fod yn weithredol. Ar hyn o bryd, bydd trenau sy'n cael eu gweithgynhyrchu yn y DU yn cael eu cludo'n aml i gyfleusterau profi yn Ewrop, am gost sylweddol.
- 1.7.** Bydd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn darparu cyfleuster profi a dilysu rheilffyrdd amlweddol sy'n gallu profi'r seilwaith i'w gyflwyno ar y rheilffordd a'r stoc rholio. Byddai cyfleuster o'r fath yn cynnig y gallu i'r diwydiant rheilffyrdd gyflwyno arloesedd yn barod ar gyfer y rhwydwaith yn llawer cynt nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai hyn yn lleihau costau'r diwydiant, yn cynorthwyo â datgarboneiddio, ac yn helpu i hwyluso arloesedd, cynyddu sgiliau a hyfforddiant a chreu swyddi yn y DU. O ystyried y galw am gyfleusterau profi ledled Ewrop a'r tu hwnt, disgwylir y byddai Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd hefyd

mewn sefyllfa dda i ddenu busnes rhyngwladol.

- 1.8.** Mae'r prosiect hefyd mewn sefyllfa dda i gefnogi adfer ar ôl COVID-19. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd gwariant ar seilwaith er mwyn helpu i roi hwb i'r economi ac i sicrhau adfer economaidd hirdymor. Bydd angen i'r sector rheilffyrdd hefyd arloesi i ddarparu ar gyfer newidiadau yn anghenion defnyddwyr cwsmeriaid a gweithredwyr o ganlyniad i'r pandemig, megis addasu i "economy cyswllt isel" yn y dyfodol.
- 1.9.** Mae Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru mewn sefyllfa dda i ddarparu datrysiad trwy ei ffocws ar seilwaith (gan gynnwys seilwaith digidol), arloesi ac effeithlonrwydd cyflenwi trafndiaeth, ynghyd â'i gyfraniad posib at gefnogi trafndiaeth, symudedd a'r buddion economaidd sy'n dod o gysylltedd.
- 1.10.** Mae'r cynnig yn edrych ar ddarparu cyfleuster seilwaith rheilffyrdd pwrpasol a phrofi a dilysu stoc rholio a fyddai'n ychwanegiad pwysig at strategaeth adfer y safle ac yn sbardun i arloesi, buddsoddi a thwf yng Nghymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach ac yn rhyngwladol.
- 1.11.** Bydd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd hefyd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddiad yn y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, gan ddarparu cyfleuster 'cyflymydd arloesi' o'r radd flaenaf ar gyfer ymchwil a datblygu a phrofi yn y DU. Bydd y cyfleuster profi seilwaith yn unigryw i Ewrop.
- 1.12.** Mae'n bosib y bydd y budd economaidd i Gymru'n sylweddol. Yn ystod y cyfnodau adeiladu, amcangyfrifir y bydd oddeutu 240 o swyddi adeiladu yn cael eu creu, ac os gwireddir pob elfen o'r cyfleuster, gellid disgwyl i'r safle gynnal oddeutu 180 o swyddi unwaith y bydd yn gwbl weithredol. Byddai'r cyfleusterau hefyd yn denu ymwelwyr rheolaidd i'r ardal, megis peirianwyr, academyddion a thimau cymorth, i ddefnyddio'r safle ar sail fesul prosiect, gan roi hwb posib i'r diwydiannau gwasanaethau lleol.
- 1.13.** Byddai angen amrywiaeth o rolau ar Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru, er y byddai rhai o'r rhain yn arbenigol a byddai angen sgiliau nad ydynt yn bresennol yn y farchnad lafur yn ne Cymru ar hyn o bryd. Rhagwelir y gallai'r safle fod yn ganolbwynt yn y DU ar gyfer hyfforddiant gweithredol, gan gynnig cyfleoedd i bobl leol ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer gyrfa yn y diwydiant rheilffyrdd.
- 1.14.** Gallai presenoldeb y cyfleuster fod yn gatalydd i ddatblygu galluoedd ymchwil newydd yng Nghymru yn y dyfodol, yn enwedig mewn cydweithrediad â darparwyr addysg uwch. O ganlyniad, mae potensial i ddatblygu rhaglenni ymchwil ac addysg sy'n cefnogi datblygiad ehangach y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru a'r tu hwnt, ac yn ei dro cynhyrchu piblinell o weithwyr medrus mewn gweithgareddau cysylltiedig.
- 1.15.** Mae'r cynigion ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru yn cynnwys dwy gydran benodol:
 - Cyfleuster profi rheilffyrdd â thrac profi rheilffordd allanol cyflym iawn wedi'i drydaneiddio (6.9km), trac profi rheilffordd fewnol cyflymder isel wedi'i

drydaneiddio (4.5 km) ac amgylchedd gorsaf platfform deuol (sy'n nodweddiadol o rwydwaith rheilffyrdd y DU) ar gyfer profi rhyngwynebau platfform trenau.

- Canolfan ymchwil, datblygu, addysg a hyfforddiant - y 'cyflymydd arloesi', cyfleusterau storio a chynnal a chadw cysylltiedig.

2. Methodoleg ymgynghori

2.1. Canllawiau

- 2.1.1. Yn dilyn mabwysiadu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, cyhoeddwyd canllawiau yn nodi'r gofynion ar gyfer Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ar gynlluniau datblygu 'mawr'.
- 2.1.2. Er 1 Awst 2016, mae angen i adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC) ddod gyda phob cais cynllunio ar gyfer prosiectau 'mawr', i ddangos tystiolaeth bod yr ymgynghoriad gofynnol wedi'i gynnal, gan adrodd ar faterion a godwyd ac os/sut yr aethpwyd i'r afael â'r rhain o fewn y cynigion terfynol.
- 2.1.3. Mae angen ymgynghori am o leiaf 28 diwrnod ac mae'n cynnwys:
 - Arddangos hysbysiad safle.
 - Ysgrifennu at unrhyw berchennog neu ddeiliad unrhyw dir sy'n ffinio â'r tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef.
 - Sicrhau bod gwybodaeth y cais cynllunio drafft ar gael i'r cyhoedd (naill ai ar-lein neu ar ffurf copi caled yn y cyffiniau lleol).
 - Ymgynghori ag 'ymgyngoreion cymunedol' ac 'ymgyngoreion arbenigol'.
- 2.1.4. Os yw ymgeiswyr yn cynnal cyhoeddusrwydd neu ymgynghoriad sy'n fwy na'r gofynion statudol lleiaf, sy'n wir am y cais hwn, fe'u hanogir i adrodd ar ganlyniad y gweithgarwch hwn yn yr adroddiad PAC (gweler y cyfeiriadau at ymgysylltu cynnar).
- 2.1.5. Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("DMPWO") mewn ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19. Cafodd y gofyniad i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig ei ddileu am gyfnod dros dro, ac estynnwyd y cyfnod hwn wedyn i 8 Ionawr 2021.
- 2.1.6. Mae'n ofynnol i'r holl wybodaeth gael ei chynnal ar-lein, â'r cyfeiriad gwe a'r rhif ffôn cyswllt i'w gweld yn glir ar yr hysbysiad safle (ac ar bob llythyr uniongyrchol i hysbysu cymydog os yw'n wahanol i'r hysbysiad safle). Os gofynnir am gopiâu caled o'r cais, rhaid peidio â chyflwyno cais cyn y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod yr anfonir y ddogfen ddiwethaf.

2.2. Dull ymgynghori

- 2.2.1. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddarparu rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr ar gyfer y prosiect hwn gyda rhanddeiliaid a chymunedau lleol ar draws y ddwy ardal awdurdod lleol er mwyn helpu i lywio'r uwchgynllun ar gyfer y safle.
- 2.2.2. Datblygwyd Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori ar ddechrau'r prosiect a nododd: pwy yr ymgynghorir â nhw; sut/pryd yr ymgynghorir â nhw; cwmpas yr ymgynghoriad; sut/pryd y darperir adborth; a manylion cyswllt ar gyfer y prosiect.

- 2.2.3. Trafodwyd y Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori drafft â swyddogion cynllunio Cynghorau Sir Castell-nedd Port Talbot a Phowys a chynrychiolwyr etholedig lleol. Ystyriwyd eu barn, ac fe'u hymgorfforwyd yn y Cynllun terfynol. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn ardal yr ymgynghoriad, ychwanegu rhanddeiliaid i ymgysylltu/ymgynghori â nhw a darparu cyngor ynghylch lleoliadau ac amseriad y digwyddiadau galw heibio yn ystod yr ymgysylltu cynnar.
- 2.2.4. Cyflwynwyd rhaglen ymgysylltu/ymgynghori drylwyr, â dau gam:
- Cam 1: Briffiad y prosiect/ymgysylltu cynnar (2 Gorffennaf - 17 Hydref 2019)
 - Cam 2: Ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio (17 Medi - 14 Hydref 2020)
- 2.2.5. Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

2.3. Ymgynghoreion

- 2.3.1. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu/ymgynghori â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghyffiniau'r safle, a chyflwynodd wybodaeth am y cynigion drafft a sut i edrych/rhoi sylwadau arnynt i dros 9,500 o gyfeiriadau preswyl a busnes lleol.
- 2.3.2. Hysbyswyd y gymuned ehangach hefyd o'r ymgysylltu/ymgynghori trwy hysbysebu a hysbysiadau safle o amgylch y safle.
- 2.3.3. Yn ogystal â thrigolion a busnesau o fewn ardaloedd diffiniedig yr ymgynghoriad, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol a chymunedol, yn ogystal ag ymgynghoreion arbenigol/statudol.
- 2.3.4. Ar gyfer cam 1: briffiad y prosiect/ymgysylltu cynnar - nodir rhestr lawn o ymgynghoreion yn adrannau 4.2.4 a 4.2.5 yr adroddiad hwn. Ar gyfer cam 2: ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio - mae rhestr lawn o'r ymgynghoreion wedi'i nodi yn adrannau 4.3.7 a 4.3.8 yr adroddiad hwn.

3. Offer ymgynghori

3.1.1. Cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu/ymgynghori â dau gam er mwyn helpu i lunio'r cynlluniau ar gyfer y prosiect Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Mae'r adran hon yn nodi'r offer ymgynghori a ddefnyddir i hysbysu ymgynghoreion ynghylch y dulliau ymgysylltu/ymgynghori ac adborth a ddarperir i annog ymatebion.

3.2. Cam 1: Briffiad y prosiect/ymgysylltu cynnar

3.2.1. Fel rhan o ddatblygu cynllun busnes y prosiect, cynhaliwyd gwaith 'profi marchnad sylfaenol' helaeth gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd. Mae hyn wedi caniatáu archwilio anghenion busnes ac ymgorffori cyngor technegol mewn dyluniad cychwynnol. Ffurfiodd y dyluniad hwn sail sesiynau briffio'r prosiect, ac ymgysylltiad cynnar â thrigolion ac ystod eang o randdeiliaid lleol a chymunedol rhwng 2 Gorffennaf a 7 Hydref 2019.

Briffiadau'r prosiect

3.2.2. Ar 21 Mai 2019, gwnaeth Ken Skates AC **ddatganiad llafar** ar gynnydd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru. Rhoddodd ddiweddariad ar yr achos busnes amlinellol a'r Cytundeb Cyd-fenter yr ymrwymwyd iddo gan Lywodraeth Cymru gyda Chynghorau Sir Castell-nedd Port Talbot a Phowys, amlygodd rai o'r buddion allweddol y gallai'r prosiect eu cyflwyno a chyhoeddodd yr ymgysylltu â'r cyhoedd sydd ar ddod. Dilynwyd hyn gan sesiwn friffio ar gyfer Aelodau'r Senedd.

3.2.3. Cafodd **cyfarfod briffio** ei gynnig hefyd i gynrychiolwyr etholedig, gan gynnwys Aelodau o'r Senedd/ASau a Chynghorau Cymuned. Cafodd y cynnig hwn ei dderbyn gan Kirsty Williams AC a Chyngor Cymuned Tawe Uchaf.

Llythyrau at randdeiliaid a'r gymuned

3.2.4. Anfonwyd llythyr at dros 300 o randdeiliaid lleol i'w cyflwyno i'r prosiect a'u gwahodd i ragolwg rhanddeiliaid cyn y sesiynau galw heibio cyhoeddus (gweler Atodiad 1).

3.2.5. Anfonwyd llythyr yn cyflwyno'r cynigion ac yn hysbysebu'r sesiynau galw heibio cyhoeddus (gweler Atodiad 2) at dros 9,500 o drigolion/busnesau lleol yn yr ardal ymgysylltu/ymgynghori graidd y cytunwyd arni gyda chynrychiolwyr lleol yn ystod trafodaethau ynghylch y Cynllun Ymgysylltu/Ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau yn Abercraf, Caehopcyn, Coelbren, Onllwyn, Blaendulais, Glyn-nedd, Creunant, Ystalyfera ac Ystradgynlais. Gweler Atodiad 3 am fap o'r ardal ymgysylltu/ymgynghori.

Rhagolwg rhanddeiliaid

3.2.6. Daeth dros 36 o gynghorwyr a chynrychiolwyr o grwpiau cymunedol lleol i'r rhagolwg rhanddeiliaid o 10am tan hanner dydd ar 17 Gorffennaf 2019 yn Neuadd Les yr Onllwyn.

Sesiynau galw heibio i'r cyhoedd

3.2.7. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio i'r cyhoedd er mwyn galluogi pobl i drafod y cyfleoedd, ystyriaethau'r safle a chynigion sy'n dod i'r amlwg gydag aelodau o

dîm y prosiect (o Lywodraeth Cymru, Arup a Grasshopper Communications). Cynlluniwyd dwy sesiwn galw heibio i ddechrau - yn Onllwyn ac yn Abercraf. Ar gais y preswylwyr a Kirsty Williams AC, trefnwyd sesiwn galw heibio ychwanegol yng Nghoelbren.

Dyd diad	Amser	Lleoliad	Presenoldeb
17 Gorffennaf 2019	1pm-7pm	Neuadd Les yr Onllwyn	188
18 Gorffennaf 2019	1pm-7pm	Neuadd Les a Sefydliad Glowyr Abercraf	133
3 Medi 2019	3pm-7pm	Neuadd Les Coelbren	60



3.2.8. Cynhaliwyd sesiwn galw heibio hefyd yn swyddfeydd safle Celtic Energy, Nant Helen ar gyfer staff.

Dyd diad	Amser	Lleoliad	Nifer yn bresennol
30 Gorffennaf 2019	1pm-3pm	Swyddfeydd Safle Celtic Energy, Nant Helen	31



Tudalen we

3.2.9. Diweddarwyd tudalen we'r prosiect - <https://gov.wales/global-centre-of-rail-excellence> - i gynnwys dogfen gryno a gyflwynodd y prosiect i gynulleidfa ehangach, a ddarparodd wybodaeth ynghylch y cynigion sy'n dod i'r amlwg ac a hysbysebodd y digwyddiadau ymgysylltu a'r dulliau adborth. Roedd yr holl ddeunydd ymgysylltu ar gael yn y Saesneg ac yn Gymraeg.

Ffurflen ymateb

3.2.10. Anogwyd y gymuned a rhanddeiliaid eraill i rannu eu barn ar y cynigion trwy ffurflen ymateb, a oedd ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled yn y digwyddiadau galw heibio i'r cyhoedd (gweler Atodiad 4).

3.2.11. Roedd copi caled o friffiad y prosiect a'r ddogfen ymgysylltu gynnar hefyd ar gael i'r rhai a oedd yn bresennol i'w cymryd i ffwrdd gyda nhw. Roedd y ffurflen ymateb a'r ddogfen ymgysylltu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad rhadbost hefyd ar gael i ymatebwyr fynegi eu barn.

3.2.12. Derbyniwyd 72 o ymatebion, ac mae'r rhain wedi'u cyfuno a'u crynhoi ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adroddiad yr Ymgynghoriad ar gyfer ymgysylltu cynnar: <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-09/global-centre-of-rail-excellence-summary-of-responses.pdf>

Hysbysebu

3.2.13. Hysbysebwyd y prosiect, y broses ymgysylltu a'r sesiynau galw heibio trwy amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys:

- Gosodwyd hysbysebion yn South Wales Guardian (12 Gorffennaf) a South Wales Evening Post (15 Gorffennaf) - gweler Atodiad 5
- Anfonwyd posteri i leoliadau cymunedol a Chynghorau Cymuned yn y cyffiniau lleol ac ehangach i'w rhoi ar hysbysfyrddau cyhoeddus - gweler Atodiad 6.
- Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei sianeli Twitter i hyrwyddo'r ymgysylltu/digwyddiadau.

3.3. Cam 2: Ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio

- 3.3.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio 28 diwrnod rhwng 17 Medi a 14 Hydref 2020 yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- 3.3.2. Mewn ymateb i'r sefyllfa COVID-19, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r broses ymgynghori cyn ymgeisio, a ddaeth i rym ar 19 Mai 2020. Er mwyn bodloni gofynion Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwysio Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("y Gorchymyn Diwygio"), cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ar-lein a darparwyd rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost. Roedd copïau caled o ddogfennau allweddol yr ymgynghoriad ar gael ar gais.

Hysbysiadau safle

- 3.3.3. Cynhyrchwyd Hysbysiad Safle dwyieithog yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac roedd yn cynnwys manylion llawn yr ymgynghoriad statudol a thudalen we'r prosiect, yn cynnwys y cais cynllunio drafft a'r dulliau adborth. Rhoddodd yr hysbysiadau:
- fanylion y cyfleusterau cyfrifiadurol cyhoeddus i weld y wybodaeth hon ar-lein (ar gael yn ystod y cyfnod ymgynghori ar sail archebu ymlaen llaw mewn llyfrgelloedd a nodir).
 - cyfeiriad e-bost cyswllt a rhif ffôn i ofyn am gopïau papur o'r cynigion.
- 3.3.4. Gosodwyd copi o'r Hysbysiad Safle (gweler Atodiad 7) mewn 10 lleoliad o ledled y safle (gweler Atodiad 8).

Hysbysiad i ymgynghoreion arbenigol

- 3.3.5. Postiwyd llythyr dwyieithog a hysbysiad cysylltiedig (gweler Atodiad 9) ar 15 Medi 2020 a'u hanfon mewn e-bost ar 17 Medi 2020 at yr holl ymgynghoreion arbenigol perthnasol yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015; gan ddarparu gwybodaeth ac yn gofyn am adborth ar y cynigion drafft. Mae rhestr o'r ymgynghoreion arbenigol i'w gweld yn Atodiad 10.

Hysbysiad i ymgynghoreion cymunedol, preswylwyr a pherchnogion tir cyfagos

- 3.3.6. Anfonwyd llythyr eglurhaol dwyieithog a Hysbysiad statudol (yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015) at ymgynghoreion cymunedol a chymdogion (gweler Atodiad 11). Esboniodd y wybodaeth hon fanylion llawn y broses ymgynghori cyn ymgeisio, gan gynnwys cyfeiriad gwe tudalen y prosiect yn cynnwys manylion y cais cynllunio drafft llawn;

cyfeiriad e-bost cyswllt; dolen i ffurflen adborth ar-lein; a rhif ffôn ar gyfer ymholiadau a cheisiadau am gopiâu caled o'r dogfennau neu'r sylwadau cynllunio.

- 3.3.7. Postiwyd y wybodaeth hon trwy bost dosbarth cyntaf ar 15 Medi 2020 at:
- 256 o ymgynghoreion cymunedol (gweler Atodiad 12), gan gynnwys:
 - Holl aelodau ward lleol Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
 - Clercod Cyngor Cymuned Blaengwrach, Cyngor Tref Glyn-nedd, Cyngor Cymuned Onllwyn, Cyngor Cymuned Blaendulais, Cyngor Cymuned Tawe Uchaf a Chyngor Tref Ystradgynlais
 - Pedwar AS ac wyth Aelod o'r Senedd lleol a rhanbarthol
 - 104 o grwpiau rhanddeiliaid lleol
 - Dau dirfeddiannwr (gweler Atodiad 13)
 - 901 o drigolion a 26 busnes yn gyfagos i'r safle (gweler Atodiad 14 - rhestr o gymdogion y ffiniau)

3.3.8. Postiwyd y wybodaeth hon trwy bost ail ddsbarth ar 16 Medi 2020 at 8,814 o drigolion/busnesau eraill yn yr ardal leol (gweler Atodiad 15).

Tudalennau Gwe

3.3.9. Ar 16 Medi, diweddarwyd tudalen we'r prosiect: <https://gov.wales/global-centre-of-rail-excellence> i gynnwys crynodeb o'r prosiect, trosolwg o'r cynigion, cynnydd y prosiect, amserlen y prosiect a dolenni i dudalen yr ymgynghoriad.

3.3.10. Roedd dogfennau'r cais cynllunio drafft hefyd ar gael ar dudalen we ymgynghoriad y prosiect: <https://gov.wales/global-centre-of-rail-excellence-planning-pre-application>. Roedd hyn yn cynnwys y dogfennau canlynol:

- Dogfen ymgynghori
- Crynodeb annhechnegol y datganiad amgylcheddol
- Datganiad amgylcheddol cyfrol 1
- Datganiad amgylcheddol cyfrol 2 atodiadau 2a i 6a
- Datganiad amgylcheddol cyfrol 2 atodiadau 7a i 15c
- Datganiad amgylcheddol cyfrol 3: ffigurau
- Datganiad cynllunio, dylunio a mynediad
- Asesiad trafndiaeth
- Uwchgynllun
- Cynllun lleoliad y safle
- Enghraifft o gais drafft am ganiatâd cynllunio i Gyngor Sir Powys
- Enghraifft o gais drafft am ganiatâd cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot

3.3.11. Roedd y tudalennau gwe, y ddogfen yr Ymgynghoriad a chrynodeb annhechnegol y Datganiad Amgylcheddol ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Ffurflen ymateb

- 3.3.12. Roedd y ffurflen ymateb ar gael ar dudalen we ymgynghoriad y prosiect i'w chwblhau ar-lein ac roedd ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.
- 3.3.13. Roedd hefyd yn bosib lawrlwytho ffurflen ymateb a'i dychwelyd trwy e-bost i: consultation@grasshopper-comms.co.uk neu ei phostio i Radbost, GRASSHOPPER CONSULT (nid oes angen stamp na chyfeiriad arall). Roedd copïau caled ar gael ar gais.
- 3.3.14. Mae copi o'r ffurflen ymateb ddwyieithog i'w gweld yn Atodiad 16.

Hysbysebu

- 3.3.15. Gosodwyd hysbyseb ddwyieithog yn y papurau newydd a ganlyn, gyda gwybodaeth am yr ymgynghoriad a sut i weld y cais cynllunio drafft:
- South Wales Echo ar 17 Medi 2020 ar dudalen 11 (gweler Atodiad 17)
 - South Wales Guardian ar 23 Medi 2020 ar dudalen 12 (gweler Atodiad 18)

Y cyfryngau/cyfryngau cymdeithasol

- 3.3.16. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg i bapurau newydd lleol a rhanbarthol a chyfryngau darlledu ar 16 Medi er mwyn cyhoeddi'r ymgynghoriad a darparu trosolwg o'r prosiect (gweler Atodiad 19), a hyrwyddwyd yr ymgynghoriad trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.
- 3.3.17. Anogwyd aelodau lleol hefyd i rannu manylion yr ymgynghoriad ac annog cyfranogiad trwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ystod diweddariadau prosiect cyn lansio'r ymgynghoriad.

Briffiadau/cyfarfodydd

- 3.3.18. Darparwyd cyfarfodydd briffio i aelodau lleol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Powys cyn lansio'r ymgynghoriad ar 17 Medi.
- 3.3.19. Cynhaliwyd cyfarfod rhithwir gyda Chyngor Cymuned Tawe Uchaf ar 8 Hydref 2020. Rhoddodd tîm y prosiect gyflwyniad ar y prosiect cyn cymryd cwestiynau gan yr aelodau a oedd yn bresennol. Mae materion allweddol a godwyd yn cael eu nodi yn yr adran ymatebion yn y bennod nesaf.

4. Canlyniadau, materion ac ymatebion yr ymgynghoriad

4.1. Ymgysylltu Cynnar

- 4.1.1. Cymerodd dros 450 o bobl ran yn yr ymgysylltu cynnar ar gynigion ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd a derbyniwyd 72 o ymatebion (trwy holiadur, e-bost neu ffôn).
- 4.1.2. Mynegwyd lefel uchel o gefnogaeth i'r cynigion, gyda 59% o'r ymatebwyr yn nodi bod y safle'n addas iawn/yn weddol addas ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Fe wnaeth y rhai a oedd yn cefnogi'r prosiect nodi'r buddion economaidd-gymdeithasol posib, gan gynnwys swyddi lleol (yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu) a chyfleoedd posib i'r gadwyn gyflenwi lleol a thwristiaeth. Roedd llawer yn teimlo bod angen buddsoddi yn yr ardal a bod y cynnig yn rhoi cyfle i adfywio safle tir llwyd presennol.
- 4.1.3. Codwyd ystod eang o faterion amgylcheddol hefyd, yn arbennig gan bobl sy'n byw yn agos at y safle. Yn benodol, amlygwyd pryderon ynghylch sŵn, traffig, dirgryniad, golau, ansawdd aer ac effaith weledol - yn arbennig mewn perthynas â'r potensial ar gyfer gweithredu 24/7, a fyddai o bosib yn cael effaith niweidiol ar amwynderau lleol.
- 4.1.4. Mynegodd nifer o ymatebwyr hefyd bryderon am ddefnydd cynyddol llinell y gangen i ddod â stoc rholio i mewn ac effaith ar ffyrdd lleol.
- 4.1.5. Mae'r crynodeb o'r ymatebion ar gael i'w weld ar dudalen we Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru: <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-09/global-centre-of-rail-excellence-summary-of-responses.pdf>.
- 4.1.6. Adolygwyd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgysylltu cynnar a'u hystyried wrth i'r cynigion ddatblygu.

4.2. Ymgynghoriad PAC

Ymgynghoreion arbenigol

- 4.2.1 Ymatebodd deuddeg ymgynghorai arbenigol i'r ymgynghoriad. Crynhoir y materion allweddol a godwyd gan bob ymgynghorai ac ymateb yr ymgeisydd isod. Gellir gweld yr ymatebion llawn yn Atodiad 20.

	Materion allweddol a godwyd	Ymateb
1	Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent Dim gwrthwynebiad i'r cais. Yr Amgylchedd Hanesyddol i gael sylw yn ôl yr amod ar gyfer lliniaru.	Wedi'i nodi.

2	<p>Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys Dim gwrthwynebiad i'r cais. Yr Amgylchedd Hanesyddol i gael sylw yn ôl yr amod ar gyfer lliniaru</p>	Wedi'i nodi.
3	<p>Cadw Dim gwrthwynebiad i'r cais yn amodol ar ganlyniad y Cydsyniad Heneb Gofrestredig. Yr Amgylchedd Hanesyddol i gael sylw yn ôl yr amod ar gyfer lliniaru.</p>	Mae'r ymgeisydd mewn deialog agos â Chadw ynghylch y cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig, a fydd yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â chais cynllunio GCRE i'w hystyried.
4	<p>Priffyrdd Castell-nedd Port Talbot (CNPT) Cefnogaeth i'r cais fel hwb i'r economi leol. Trafodaethau pellach i ddod.</p>	Mae'r ymgeisydd mewn deialog agos â Phriffyrdd CNPT ynghylch cwmpas gwaith yr Aseiad Trafnidiaeth sy'n cefnogi'r cais.
5	<p>Priffyrdd Powys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aseiad Trafnidiaeth- cyfrifon traffig annigonol (dim ond 24 awr ac nid yr isafswm cyfnod niwtral saith diwrnod). Ystyried bod rhagfynegiadau traffig yn geidwadol. Ystyried bod traffig yng nghanam 1 yn cael mwy o effaith. A fydd arolygon ychwanegol yn cael eu cynnal? • Mynediad gogleddol o'r A4221 - ni ystyriwyd cyfrifon cyffordd a theithiau o'r fynedfa hon. Dim arwydd o beth y defnyddir y mynediad hwn amdano. A ddarperir eglurhad ychwanegol? • Cyffordd Ffordd Onllwyn o'r A4221 - cyffordd heb ei chynnwys yng nghwmpas yr Aseiad Trafnidiaeth (dim cyfrifon mynediad i bennu lefelau traffig/tarfu ar draffig). A fydd cyfrifon ychwanegol yn cael eu cynnal? Pam ei bod wedi'i heithrio? • Ystyriaethau Teithio Gweithredol - croesawu cyswllt beiciau/cerddwyr rhwng y safle ac Ystradgynlais. Croesewir gwybodaeth ychwanegol. • Ardal wyluo anawdurdodedig bosib ar Ffordd Onllwyn a allai 'arwain at lefelau uwch o draffig a lefelau uwch o barcio diwahân ar y stryd. Mae'r HA yno'n ceisio eglurhad ar lefel yr ymwelwyr/gwylwyr y mae'r cyfleuster yn debygol o'u cynhyrchu a'r mesurau a fydd yn cael eu gweithredu i ddarparu ar eu cyfer yn ddiogel o fewn y safle'. 	<p>Mae'r ymgeisydd mewn deialog agos â Phriffyrdd Powys.</p> <p>Mae arolygon ychwanegol wedi'u cwmpasu mewn ymgynghoriad â swyddogion Priffyrdd Powys a Chastell-nedd Port Talbot.</p> <p>Cynhwysir yr holl bwyntiau eraill mewn Aseiad Trafnidiaeth diwygiedig a gyflwynir fel rhan o'r cyflwyniad cynllunio.</p>

<p>6</p>	<p>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</p> <p>Tirwedd - Effeithiau Gweledol</p> <p>“Byddai effeithiau gweledol niweidiol sylweddol ar dderbynyddion mewn wyth man gwyllo yn y parc am gyfnod sylweddol (yn ystod y cyfnod adeiladu pedair blynedd ac yn parhau am hyd at 15 mlynedd ar ôl ei gwblhau). Y tu hwnt i 15 mlynedd, byddai effeithiau andwyol sylweddol o hyd mewn dwy olygfan. Dylai'r plannu coetir a gynigir integreiddio llawer o'r datblygiad i'r dirwedd amgylchynol o fewn y cyfnod 15 mlynedd. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o'r seilwaith rheilffyrdd a'r nodweddion wedi'u peiriannu (llinellau uwchben a chloddiadau) yn parhau i fod yn amlwg fel nodweddion parhaol yn y golygfeydd ac yn parhau i gael effaith andwyol ar ansawdd golygfaol y golygfeydd a'r ymdeimlad o dawelwch a phellter.”</p> <p>Mae potensial ar gyfer llygredd golau ac effaith ar Awyr Dywyll y Parc Cenedlaethol. Mae angen cynnal asesiad llygredd golau/awyr dywyll a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar y cynllun goleuo terfynol.</p>	<p>Mae arolwg yn ystod y nos wedi'i gynnal. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnwys yn y cyflwyniad terfynol yn Atodiad 9E y Datganiad Amgylcheddol.</p>
	<p>Lliniaru</p> <p>“Er y gallai rhywfaint o gynllunio coed a llwyni brodorol ychwanegol helpu i leihau effaith weledol yr adeiladau, ni fyddai'n bosib lleihau effeithiau andwyol y seilwaith rheilffyrdd a nodwyd yn yr Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (LVIA).</p> <p>“Rydym yn credu bod budd i ymchwilio i gynnwys Seilwaith Gwyrdd wrth ddylunio'r adeiladau yn yr olchfa, ac rydym yn cyngori y dylid cwblhau hyn ochr yn ochr ag asesiad lliw er mwyn lleihau effeithiau tymor hir y datblygiad ar y BBNP.”</p> <p><i>Gofyniad 1 - Cynlluniau: Mae'r holl gynlluniau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn yn cael eu diwygio yn unol ag egwyddorion sefydledig lliniaru/gwella cynefinoedd y cytunwyd arnynt o dan gais cydsyniedig 20/0738/FUL.</i></p> <p><i>Amod 1 - CEMP: Ni fydd unrhyw ddatblygiad na cham datblygu, gan gynnwys clirio safle, yn cychwyn nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) ar draws y safle wedi'i</i></p>	<p>Mae'r cais yn amlinellol ac mae pob mater wedi'u cadw'n ôl.</p> <p>Yn ystod y cam dylunio manwl, bydd y rôl y gall seilwaith gwyrdd ei chwarae ochr yn ochr ag esblygiad dyluniad yr adeiladau yn cael ei archwilio o ran sgrinio a fframio rhai adeiladau ac offer/seilwaith, yn ogystal â lleddfu effaith wynebau caled ac ati.</p>

<p><i>gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig.</i></p> <p><i>Amod 2 - EMMP: Cyn gweithredu'r datblygiad neu gam o'r datblygiad, rhaid i Gynllun Rheoli a Monitro Amgylcheddol (EMMP) - sy'n manylu ar strategaethau ar gyfer mesurau rheoli, cynnal a monitro nodweddion ecolegol, amgylcheddol a thirwedd y safle - gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig.</i></p>	
<p>Safleoedd Gwarchoddedig “Rydym o'r farn nad yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr ACA a nodwyd.”</p>	Wedi'i nodi.
<p>Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) -</p> <p>1. Derbynyddion Dŵr Croyw Sensitif: “Yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr amlinelliad CEMP (ES Atodiad 3A) ac ar yr amod bod y mesurau a amlinellwyd yn cael eu gweithredu, rydym o'r farn nad yw'r datblygiad yn debygol o niweidio'r nodweddion y mae SSSI Nant Llech a Gorsllwyn Onllwyn o ddiddordeb ar eu cyfer. (Amod 1).”</p> <p>2. Derbynyddion Awyrol Sensitif 0 NOX ac SO2: “Rydym yn cytuno â chasgliad yr ES ar yr asesiad o effeithiau ynghylch newidiadau mewn llif traffig sy'n gysylltiedig â cham adeiladu a cham gweithredol y datblygiad. Mae tablau 14-6 a 14-9 yn nodi na fyddai traffig adeiladu ychwanegol a llif traffig gweithredol yn ddigon uchel i sbarduno asesiad pellach.</p> <p>“Nid yw CNC yn cytuno â chasgliad yr ES y gellir ‘sgrinio asesiad o effeithiau rheilffordd ar dderbynyddion ecolegol ac y gellir ystyried bod yr effaith yn ddibwys.’</p> <p>“Rydym yn cynghori y dylai crynodiadau NOX ac SO2 fod yn llai nag 1% o'r lefel gritigol yn SSSI Gorsllwyn Onllwyn.’ Mae CNC wedi nodi Gofyniad 2.”</p>	Wedi'i nodi.

	<p><i>Gofyniad 2 - Ansawdd Aer: Cyflwyno pennod 'Ansawdd Aer' ddiwygiedig (adran 14) o'r Datganiad Amgylcheddol (ES) i gynnwys meini prawf sgrinio priodol ac asesiad o effeithiau ar dderbynyddion ecolegol sensitif.</i></p> <p>3. Derbynyddion Awyrol Sensitif - Llwch: Mae'r "parth clustogi" yn cynnwys tir yn SSSI Gorsllwyn Onllwyn, fel y dangosir yn Ffigur 14.2. Os cymhwysir y gwerth arferol a ddefnyddir i nodi dyddodiad llwch niwsans mewn ardaloedd preswyl (200mg/m²/dydd), a chymerir mesurau priodol i leihau allyriadau mewn modd amserol os oes angen, nid ydym o'r farn y byddai effaith sylweddol ar safleoedd gwarchoddedig.</p> <p>Rydym yn cynghori y byddai dyddodiad lefel llwch o 500mg/m²/dydd neu fwy yn niweidiol i SSSI Gorsllwyn Onllwyn.</p>	<p>Nodir hyn ac mae rhagor o fanylion am grynodiadau perthnasol wedi'u cyflwyno yn y cyflwyniad olaf.</p> <p>Wedi'i nodi.</p> <p>Wedi'i nodi.</p>
	<p>Paratoi Cynlluniau Rheoli: Cynigiodd CNC y dylid cynhyrchu dwy ddogfen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) • Cynllun Rheoli a Monitro Amgylcheddol (EMMP) <p>Gofynion a nodir yn Amod 1 a 2 uchod.</p>	<p>Wedi'i nodi.</p> <p>Mae CEMP amlinellol wedi'i gynnwys yn y cam ymgeisio (ES Atodiad 3A) a bydd y CEMP a'r EMMP manwl yn cael eu cyflyru a'u paratoi cyn cyflwyno materion a gedwir yn ôl.</p>

<p>Rhagfynegiadau Rhywogaethau: “Yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg a'r mesurau lliniaru a gynigir, rydym yn fodlon nad yw'r datblygiad yn debygol o effeithio'n sylweddol ar Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS). Rydym yn ystyried bod yr holl argymhellion a ddisgrifir yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) yn briodol, ond mae angen gwybodaeth bellach ar gyfer mesurau i leihau'r risg o wrthdaro ystlumod a dyfrgwn oherwydd gweithrediad trenau ar hyd y cledrau a fydd yn parhau gyda'r hwyr ac yn y nos.</p> <p><i>“Gofyniad 3 - EPS: Cyflwyno gwybodaeth am osod pwyntiau croesi diogel ar gledrau rheilffordd i ystlumod a dyfrgwn i arddangos nad yw'r datblygiad yn niweidiol i gynnal poblogaeth unrhyw rywogaeth EPS dan sylw â statws cadwraeth ffafriol yn ei ystod naturiol.”</i></p>	<p>Mae gwybodaeth bellach am ystlumod a dyfrgwn, ynghylch risg bosib o wrthdrawiadau, yn cael ei chyflwyno a'i thrafod yn y Datganiad Amgylcheddol.</p>
<p>Halogiad tir ac ansawdd dŵr: “Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar ddraenio'r safle.’ ‘Rydym yn ystyried bod y safle o sensitifrwydd amgylcheddol is, fel y cadarnhawyd gan yr astudiaeth ddesg yn Atodiad 6A. Nid ydym yn ystyried, felly, bod angen rhoi cyngor i'r ACLI yn y cam cais cynllunio. Fodd bynnag, rydym yn cynghori bod trin a gwaredu priddoedd halogedig a dŵr daear yn cael ei reoleiddio gan ddeddfwriaeth gwastraff a bod trwydded amgylcheddol yn ofynnol.”</p>	<p>Wedi'i nodi.</p>
<p>Trwyddedau / Esemptiadau Amgylcheddol: “Efallai y bydd angen trwydded neu esemptiad amgylcheddol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ar gyfer gweithredu'r sied ('digomisiynu'). Rhaid bod trwydded neu esemptiad amgylcheddol ar waith cyn i unrhyw weithgarwch gwastraff ddigwydd ar y safle.</p>	<p>Wedi'i nodi.</p>

7	<p>Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Ar hyn o bryd mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bryder sylweddol y bydd y cynnig yn cael effeithiau andwyol ar un o ddibenion statudol y Parc Cenedlaethol. Mae'r materion allweddol a godwyd yn ymwneud ag effeithiau tirwedd a gweledol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Asesiad yn ystod y nos - "Ar hyn o bryd mae'r LVIA yn hepgor asesiad yn ystod y nos. Mae angen yr asesiad hwn er mwyn deall yr effaith lawn ar y Parc Cenedlaethol a'r Warchodfa Awyr Dywyll gerllaw." 2. Effeithiau gweledol - "Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn amlinellu y byddai effeithiau gweddilliol i 4 derbynnydd gweledol ar ôl sefydlu plannu lliniarol ym mlwyddyn 15. Bydd Golygfannau 2, 3 a 9 yn profi effaith niweidiol gymedrol y tu hwnt i'r 15 mlynedd, a golygfan 14 yn profi effaith andwyol fawr. Mae tair o'r pedair golygfan o'r tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Ar y sail hon, mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bryder sylweddol iawn o hyd ynghylch y cynnig, ac mae'n mynnu ymgorffori mesurau lliniaru plannu pellach mewn ardaloedd o amgylch ardaloedd gogleddol a dwyreiniol safle'r Olchfa, ac mae hefyd angen manylion defnydd o ddulliau eraill i integreiddio'r datblygiad i'r dirwedd (e.e. defnyddio toeau gwyrdd neu frown ac ati)." 	<p>Mae arolwg yn ystod y nos wedi'i gynnal. Cynhwysir yr asesiad yn Atodiad 9E o'r cyflwyniad cais terfynol.</p> <p>Mae glaswelltir corsiog o fewn gogledd yr Olchfa yn flaenoriaeth i'w gadw gan fod hyn yn gysylltiedig ag SSSI Gors Llwyn tua'r gogledd. Mae glaswelltiroedd eraill a gedwir yn yr ardal hon yn llawn rhywogaethau ac yn bwysig i'r poblogaethau infertebratau y maent yn eu cynnal. Ni fyddai plannu coed ychwanegol yn briodol yn y lleoliad hwn, gan y byddai'n peryglu gwerth ecolegol cynefinoedd yn yr ardal hon.</p>
---	---	--

<p>3. Effeithiau ar y dirwedd: “Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn amlinellu effeithiau andwyol cymedrol ar y dirwedd yn ystod y gwaith adeiladu, ac yn ystod y gweithredu mae effeithiau tirwedd yn gymedrol niweidiol â'r plannu lliniarol ym mlwyddyn 15 yn newid dwy allan o dair ardal cymeriad tirwedd i gael mân effeithiau niweidiol ar y dirwedd. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dal i weld pryder sylweddol ynghylch effaith y cynnig ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.”</p> <p>4. Rheoli a monitro plannu lliniarol yn effeithiol: “mae llawer o'r casgliadau tirwedd a gweledol a amlinellir yn y Datganiad Amgylcheddol ar sail rhagdybiaeth bod y plannu lliniarol arfaethedig yn sefydlu ei hun yn ôl y disgwyl yn y cyfnod 15 mlynedd. Nodir hefyd y dywedir bod rhywfaint o'r manylion penodol ar y plannu 'i'w datblygu yn y cam dylunio manwl', a hefyd bod amod cynllunio ynghlwm wrth ganiatâd y cloddweithiau sy'n galw am fanylion pellach.</p> <p>Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi <i>amlinellu amheuon ynghylch digonolrwydd/effeithiolrwydd y mesurau lliniaru hyn mewn gwirionedd (gweler y sylwadau blaenorol ar y cais cloddweithiau) ac mae wedi amlinellu uchod yr angen am liniaru ychwanegol o amgylch safle'r Olchfa yn benodol.</i></p> <p>Mae'r Parc Cenedlaethol yn gofyn am roi ystyriaeth ofalus i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 'y dull o sicrhau rheoli a chynnal a chadw'r plannu hwn yn y tymor hir' • 'dull priodol ar gyfer monitro effeithiau tirwedd a gweledol yn effeithiol yn y dyfodol'. <p>'Barn Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw y gallai monitro effeithiol alw am ffotogyfosodiadau (ysbeidiau amser mwy niferus) yn y Datganiad Amgylcheddol er mwyn galluogi cynnal cymariaethau/monitro effeithiol yn y dyfodol (ac mae angen gwneud ymyriadau).</p>	<p>Wedi'i nodi, a mater i'r ACLI yw pwyso a mesur unrhyw effeithiau yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.</p> <p>Mae'r ffotogyfosodiadau a ddarperir yn cynrychioli senario blwyddyn 15 lle mae plannu wedi'i sefydlu ac yn darparu ei swyddogaeth.</p> <p>Mae effeithiau tirwedd a gweledol Blwyddyn 1, lle nad yw plannu wedi'i sefydlu'n ddigonol eto i liniaru effeithiau'n llawn, yn cael eu nodi ym mhennod 9 o'r Datganiad Amgylcheddol.</p> <p>Ni ystyrir, felly, bod darparu ffotogyfosodiadau sy'n portreadu senarios ychwanegol yn angenrheidiol.</p>
---	---

8	<p>Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth LIC “Mae'r map Dosbarthiad Tir Amaethyddol Traethiadol (ALC) yn nodi bod y safle'n Radd 5 yn bennaf, gydag ardaloedd Gradd 4.</p> <p>“Ni argymhellir arolwg ALC o'r safle arfaethedig, gan ei fod yn annhebygol o gynnwys tir amaethyddol BMV. Felly, ni fydd polisi BMV (PPW, paragraffau 3.54 a 3.55) yn berthnasol i'r cais hwn.”</p>	Wedi'i nodi.
9	<p>Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru “Dylai'r datblygwr ystyried yr angen i ddarparu cyflenwadau dŵr digonol ar gyfer diffodd tân ar y safle.”</p>	Wedi'i nodi, ac yn ddiau bydd yn ystyriaeth yn y cam dylunio manwl pan fydd gofynion gweithredol yn cael eu diffinio.
10	<p>Western Power Distribution (De Cymru) PLC: “Yn gyffredinol, mae WPD yn cefnogi'r cynllun ac yn nodi y bydd y cynllun yn cael ei drydaneiddio. Pe byddai angen gosod cyfarpar newydd megis is-orsafoedd a seilwaith cysylltiedig, rydym yn annog y datblygwr i ymgysylltu â WPD i ddarganfod a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer seilwaith o'r fath i gysylltu'r prosiect â'r rhwydwaith trydan.</p> <p>“Mae WPD hefyd yn annog y datblygwr i barhau i ymgysylltu â WPD, ac yn benodol i ymgynghori'n uniongyrchol os yw unrhyw newidiadau i'r tirlfurf cydsyniedig presennol yn debygol o wrthdaro ag asedau WPD.”</p>	Wedi'i nodi. Bydd yr ymgeisydd yn parhau i ymgysylltu â WPD os bydd unrhyw newidiadau i'r tirlfurf cydsyniedig presennol a allai wrthdaro ag asedau WPD.
11	<p>Dŵr Cymru ‘Mae'r cynllun wedi'i leoli o fewn ardal sydd heb ei charthffosydd, felly rydym yn argymhell bod yr ymgeisydd yn ceisio dull arall o drin carthffosiaeth. Gellir gwneud cyflenwad dŵr gan ddefnyddio cysylltiad sydd eisoes yn bodoli yn y cyfeirnod grid cenedlaethol -284571, 210338.’</p> <p>Felly, mae'r datblygiad yn galw am gymeradwyo nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), yn unol â'r 'safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau draenio dŵr wyneb'. ‘Mae'n ofynnol i'r datblygwr archwilio a dihysbyddu'n llawn yr holl opsiynau draenio dŵr wyneb yn unol â hierarchaeth, sy'n nodi bod gollwng i</p>	Mae cyflwyniad cyn ymgeisio Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) wedi'i wneud i Gyngor Sir Powys.

	<p>garthffos gyfun yn ddewis olaf.'</p> <p>'Dylid gwaredu drwy'r dull hierarchaidd, gan ffafrio ymdreiddio a, lle nad yw ymdreiddio'n bosib, gwaredu i gorff draenio dŵr wyneb trwy gysylltu â'r Awdurdod Draenio Tir a/neu Gyfoeth Naturiol Cymru. Argymhellir, felly, bod y datblygwr yn ymgynghori â Chyngor Sir Powys.'</p> <p>'Ni chaniateir i ddŵr ffo draenio tir neu briffordd ollwng yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.'</p>	
12	<p>Trafnidiaeth Cymru</p> <p>Cefnogaeth i gynigion GCRE lle mae sawl sefydliad allweddol yn cydweithio i gefnogi arloesedd a thwf y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.</p> <p>Bydd yn darparu buddion i Drafnidiaeth i Gymru "yn ein gallu i ymchwilio, datblygu, arloesi wrth ddatblygu gwybodaeth a sgiliau a fydd o fudd i ddarpariaeth well i'n cwsmeriaid. "</p>	Wedi'i nodi.

Ymgynghori ag ymgynghoreion cymunedol, preswylwyr a thirfeddianwyr cyfagos


4.3.1. Derbyniwyd cyfanswm o 63 ymateb - 50 ffurflen adborth ac 13 e-bost/galwad ffôn yn rhoi adborth ar y cynigion.

4.3.2. Rhoddodd ymatebwyr sylwadau tebyg o dan bob un o'r cwestiynau ar y ffurflen adborth ac e-byst/galwadau ffôn. Er mwyn cynorthwyo wrth goladu ymatebion i'r materion a godwyd, rydym wedi dyrannu'r adborth i'r categorïau canlynol:

- Buddion economaidd - swyddi a sgiliau, buddsoddiad lleol, twristiaeth
- Effaith ar amwynderau lleol
- Arloesi ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd
- Traffig a thrafnidiaeth
- Sŵn
- Oriau gweithredu
- Materion amgylcheddol
- Colli tir comin
- Ystyriaethau safle
- Gofynion adeiladu
- Dyluniad manwl

- Arferion gwaith/hyfforddiant
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Y broses ymgynghori
- Defnyddio'r cyfleuster
- Mae'r safle yn anaddas
- Hyfywedd y prosiect
- Dim datblygiad
- Sylwadau eraill

4.3.3. Gofynnodd cwestiwn 1 y ffurflen adborth i'r ymatebydd raddio pa mor bwysig yw'r gwahanol fuddion economaidd a chymdeithasol a nodwyd i'r ardal leol. O'r 46 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd ymatebwyr yn teimlo bod cyfleoedd twristiaeth (58%), buddsoddiad lleol (56%), sgiliau a hyfforddiant lleol (56%), rhoi hwb i'r gwasanaethau lleol/cadwyn gyflenwi (51%) a datblygu diwydiant newydd i ddisodli mwyngloddio glo (51%) yn bwysig iawn/pwysig.



4.3.4. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r adborth gan ymgynghoreion cymunedol, preswylwyr a thirfeddianwyr cyfagos ynghyd â'r adborth o gyfarfod Cyngor Cymuned Tawe Uchaf ac yn darparu ymateb gan yr ymgeisydd.

Sylwadau	Ymatebion
Buddion Economaidd	
Pryderon na fydd y buddion economaidd o fudd i'r gymuned leol.	Bydd sbectrwm eang o fuddion economaidd o greu swyddi, hyfforddiant a chysylltiadau dysgu â darparwyr addysg lleol, cyfleoedd

	i'r gadwyn gyflenwi, a rôl i'w chwarae yn y sector ymwelwyr/twristiaeth lleol trwy arosiadau dros nos a'r effeithiau ychwanegol mae hynny'n eu creu.
Swyddi a sgiliau	
Cyfle i greu swyddi lleol a chyfleoedd dysgu i bobl leol. Pryderon na fydd y swyddi ar gyfer pobl leol. Pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol?	Bydd ystod o gyfleoedd cyflogaeth ar gael o ystyried bod y cynnig yn amlweddog ac y bydd angen gweithlu amrywiol ar draws gwahanol agweddau'r cynllun. Yn naturiol, bydd angen i gyfleoedd ar gyfer uwchsgilio/ailsgilio a chyflogaeth newydd dynnu ar weithlu lleol. Mae mesurau contractol y gellir eu rhoi ar waith gyda gweithredwr safle yn y pen draw i'w gwneud yn ofynnol iddo geisio (a phrynu) cyflogaeth leol lle bydd hynny'n bosib.
Angen ystyried hyfforddiant/prentisiaethau ar gyfer pobl leol - yn arbennig pobl iau. Potensial ar gyfer cyfleoedd addysg eraill i ddysgwyr lleol gan weithwyr proffesiynol i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i ddiwrnodau agored a gweithdai.	Mae cyfleoedd clir i weithio gyda darparwyr addysg lleol a darparwyr eraill a leolir yng Nghymru i archwilio hyfforddiant a phrentisiaethau.
Gofynnir am fanylion pellach ar gyfrifo buddion economaidd.	Mae'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdodau Cynllunio o dan Gytundeb Cyd-fenter.
Buddsoddi lleol	
Buddsoddi/adfywio yn yr ardal a chefnogaeth i'r gadwyn gyflenwi a gwasanaethau lleol.	Mae'r Achos Busnes Amlinellol ac mewn gwirionedd y cyflwyniad cais cynllunio trwy'r Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio'r cyfleoedd ar gyfer adfywio lleol. Mae'r DA (Pennod 12) yn cyfeirio at ganllawiau Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru ¹ ac yn nodi y byddai'n ofynnol i'r datblygwyr/gweithredwyr posib gadarnhau sut y byddent yn sicrhau'r buddion mwyaf posib i'r economi leol yn unol â'r canllawiau.

¹ Llywodraeth Cymru (2014) Buddion Cymunedol: Cyflenwi'r Gwerth Uchaf ar gyfer Punt Cymru <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/community-benefits-deliveringmaximum-value-for-the-welsh-pound-2014.pdf>

<p>Cyfle i gydweithio rhwng diwydiant, Trafnidiaeth Cymru a'r prifysgolion.</p>	<p>Mae'r prosiect wedi'i ddatblygu, ei lunio, ei wirio a'i herio ag ymglymiad agos y diwydiant rheilffyrdd trwy gydol y broses. Mae'r Achos Busnes Amlinellol hefyd wedi'i ddatblygu gydag ymglymiad agos y diwydiant, gan sicrhau bod y cynnig yn ymateb i anghenion y diwydiant rheilffyrdd a hefyd i'r cyfleoedd ehangach ar gyfer datblygu a dysgu trwy gysylltiadau â'r sector addysg, sydd hefyd wedi chwarae rhan agos yn elfen 'cyflymydd arloesi' cynnig y cynllun.</p>
<p>Cyfleoedd i adfywio cyfleusterau lleol ac ymgorffori cyfleusterau hamdden.</p>	<p>Er nad yw'r cais hwn yn gysylltiedig yn benodol â hamdden, byddai'r tîr feddiannwr presennol, sef Celtic Energy, yn cadw rhywfaint o berchnogaeth tir yn Nant Helen, ac mae ganddo ddyheadau i greu cynnig hamdden.</p> <p>Mae gan GCRE y potensial i alw am lety dros nos, a gallai gynhyrchu diddordeb y farchnad mewn datblygu gwesty yn lleol.</p>
<p>Pryderon na fydd cymorth i'r gadwyn gyflenwi leol.</p>	<p>Mae cysylltiadau cadwyn gyflenwi amlwg ar gael o ystyried graddfa ac ehangder y cynnig.</p>
<p>Twristiaeth</p>	
<p>Cyfle i greu profiad i ymwelwyr ar y safle, gyda chyfleoedd addysgol ehangach.</p>	<p>Codwyd hyn trwy ymgynghori cynnar ac mae posibilrwydd y gallai unrhyw ofod cynhadledd a ddatblygir gynnwys dehongli/arddangosfeydd ar y cyfleuster yn ogystal ag arddangosiad ar gyfer hanes trafrnidiaeth reilffordd. Gallai hwn fod yn adnodd a allai fod o fudd i blant ysgol, y gymuned leol ac ymwelwyr o ymhellach i ffwrdd.</p>
<p>Pryderon y byddai'r prosiect yn niweidiol i dwristiaeth yn yr ardal.</p>	<p>Mae dogfennau'r cais yn peintio darlun clir y bydd cyfleoedd cadarnhaol i dwristiaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn hytrach nag atal pobl rhag dod i'r ardal ar gyfer hamdden a thwristiaeth.</p>
<p>Cyfle i ddarparu llety newydd yn yr ardal. Er</p>	<p>Wedi'i nodi ac oes, mae cyfle clir i GCRE ysgogi</p>

enghraifft, ystyried adeiladu gwesty ar gyffordd (gorllewinol) Glyn-nedd yr A465.	galw'r farchnad am lety dros nos yn yr ardal a thrwy gydol y flwyddyn, gan ymestyn y tymor.
Defnyddio TG i annog twristiaeth.	Wedi'i nodi.
Effaith ar amwynderau lleol	
Effaith negyddol ar les y gymuned leol - yn arbennig â gweithredu 24/7.	Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn asesu'r cynnig yn ôl lluo o bynciau sydd â chyd-destun lles megis sŵn, dirgryniad, ansawdd aer ac effaith weledol. Mae'r asesiad yn dangos, lle bo effeithiau, y gall y cynllun eu lliniaru i'r graddau bod y cynnig yn dderbyniol yn nhermau cynllunio.
Pwysau ychwanegol ar gyfleusterau a gwasanaethau lleol	Ni ragwelir y bydd pwysau ar gyfleusterau a gwasanaethau yn deillio o'r cynllun. Nid yw hwn yn gynnig preswyl lle mae'r galw am fynediad at wasanaethau neu bwysau ar leoedd ysgol yn bryder perthnasol.
Pryder ynghylch uchder adeiladau ac effaith weledol. Awgrymu adeiladau cynaliadwy/eco	Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol cynhwysfawr (Pennod 9) sy'n ymdrin â'r pwnc hwn. Er bod y cais yn amlinellol, mae paramedrau graddfa wedi'u gosod ar gyfer uchder adeiladau. Trwy ganolbwyntio'r adeiladau ar safle'r Olchfa bresennol, lle mae adeiladau presennol ar raddfa, ystyrir bod dull uwchgynllunio cadarn wedi'i gymryd tuag at leoli a chasglu adeiladau. Bydd dyluniad manwl yr adeiladau yn cael ei ystyried yn y cam materion a gedwir yn ôl. Nodir sylwadau ynghylch adeiladau cynaliadwy/eco posib.
Pryder ynghylch asbestos ar y safle mewn trenau wedi'u digomisiynu a sut y caiff deunyddiau peryglus eu trin/gwaredu.	Bydd amodau ar waith i sicrhau bod y cyfleuster yn cael cydsyniad a chaniatâd priodol fel rhan o'r cam gweithredol.
Effaith ar dawelwch yr ardal.	Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys asesiadau cynhwysfawr ar gyfer

	<p>sŵn (Pennod 10) ac ar gyfer effaith weledol/ar dirwedd (Pennod 9) - y ddwy'n elfennau allweddol o dawelwch canfyddedig. Mae'r ddwy ddisgyblaeth hyn yn cydweithio'n agos trwy'r broses ddylunio i liniaru'r prosiect sy'n lleihau effeithiau sŵn a gweledol.</p> <p>Mae'n ddigon posib y bydd sain o'r cyfleuster yn glywadwy yn yr ardal gyfagos - yn yr un modd ag y bydd y cyfleuster yn dal i fod yn weladwy o rai golygfannau - fodd bynnag, darperir lliniaru ar ffurf rhwystrau sŵn a phlannu er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar iechyd ac ansawdd bywyd o ganlyniad i sŵn ar gyfer pob cymuned ger y cyfleuster, ac er mwyn lleihau'r effaith weledol.</p>
Effaith niweidiol ar werthoedd tai.	Mae effaith datblygiadau newydd ar werthoedd eiddo bob amser yn anodd ei mesur, ond byddem yn gobeithio y byddai cyfleuster diwydiannol glân, modern yn cael ei ystyried yn llai niweidiol na mwynglawdd brig gweithredol i ddarpar brynwyr tai. Fodd bynnag, nid yw hon yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.
Llai o fynediad ar gyfer beicio a cherdded/tarfu ar y rhwydwaith PROW.	Mae'r Datganiad Amgylcheddol (Pennod 12) yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gerddwyr a beicwyr ac yn amlinellu cynnig i ailagor PROW sydd ar gau ar hyn o bryd, yn ogystal â dargyfeirio rhai i greu'r hyn a ystyrir yn llwybr cylchol mwy hwylus, mwy eglur a rhyng-gysylltiedig o amgylch y safle.
Pryder y byddai'r arglawdd yn cysgodi cartrefi.	Mae'r cloddweithiau, gan gynnwys yr argloddiau, eisoes wedi'u cydsynio trwy gynllun Cloddweithiau Cyflenwol cynharach Nant Helen.
Pryder y gallai'r cyflymderau y caiff y trenau eu profi arnynt achosi perygl i fywyd - er enghraifft, os yw'r trên yn gadael y cledrau ac yn cwmpo i mewn i gartrefi yng Nghoelbren.	Byddai rhaid i'r cyfleuster profi gael ei ardystio/rheoleiddio'n briodol i allu gweithredu. Disgwylir i iechyd a diogelwch ar y safle a'r derbynyddion oddi ar y safle fod yn gydrannau craidd o'r broses drwyddedu honno.

Arloesi ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd	
Mae ei angen ar gyfer dyfodol y diwydiant rheilffyrdd.	Wedi'i nodi, ac fel yr archwiliwyd yn y Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad ac mewn manau eraill yn y cyflwyniad, mae'r cynnig yn ymateb uniongyrchol i angen nas diwallwyd a fynegwyd gan y diwydiant rheilffyrdd dros nifer o flynyddoedd.
Cyfle i fod yn arweinydd yn rhyngwladol, ar flaen y gad yn natblygiad cerbydau gwyrdd/carbon isel ar gyfer y dyfodol.	Wedi'i gytuno.
Mae'r cyfleusterau profi presennol yn annigonol, yn arbennig o ran argaeledd trac profi hirgrwn wedi'i drydaneiddio ar gyfer cronni dygnwch pellter hir a phrofi datrysiadau ynni cynaliadwy seilwaith, systemau canfod trenau â signalau a monitro adlyniad trac.	Wedi'i gytuno.
Cyfle i ddarparu diwydiant rheilffyrdd carbon is, wedi'i ysgogi'n ddigidol, yn fwy effeithlon ac yn gystadleuol yn fasnachol.	Wedi'i gytuno.
Cyfle i gael mwy o gydweithredu â chyrff o'r tu allan i'r DU.	Wedi'i gytuno, ac ni ddefnyddir 'Bydeang' yn ddiotal/ysgafn. Mae gan y cyfleuster hwn y potensial i gyrraedd yn eang ledled y byd.
Cyfle i ystyried dull system gyfan, oes gyfan o ddatgarboneiddio'r sector rheilffyrdd - gan ystyried agweddau gweithredol, cynnal a chadw a datgomisiynu.	Wedi'i gytuno.
Cyfle i archwilio gwell cysylltedd digidol i alluogi cymudwyr i ddefnyddio eu hamser teithio yn effeithiol.	Wedi'i gytuno.
Cyfle i gyflwyno technolegau trawsnewidiol megis signalau digidol, gan ysgogi newid sylweddol wrth wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.	Wedi'i gytuno.
Cyfle i gymryd rhan ryngddisgyblaethol yn yr ymchwil i archwilio'r amrywiol dechnolegau sy'n cyd-fynd â rheilffyrdd	Wedi'i gytuno.
Cyfle i ymchwilio a phrofi mewn ystod eang o feysydd eraill, gan gynnwys integreiddio'r system drafnidiaeth, tocynnau, rhannu gwybodaeth ddigidol a seiberddiogelwch.	Wedi'i gytuno. Mae gan y cyfleuster y potensial i ehangu ei gwmpas o brofi i feysydd newydd a gwahanol ar draws sbectrwm gweithrediadau'r diwydiant.

Hanfodol i ymchwilio i wydnwch seilwaith o dan amodau tywydd eithafol.	Wedi'i gytuno.
Gwybodaeth ychwanegol i'r de ar bwysau'r cledrau i'w defnyddio.	Rydym yn cadarnhau bod pwysau'r cledrau i'w defnyddio yn debygol o fod yn 56kg/m ar gyfer y seidins, a 60kg/m yn debygol ar gyfer y traciau prawf.
Traffig a thrafnidiaeth	
Sut bydd trenau'n cyrraedd y safle profi - ar reilffordd neu'r ffordd? Os ydyn nhw'n dod i fyny'r llinell gangen, pa waith gwella fydd ei angen ar y llinell?	Gellid cludo trenau i'r safle ar y ffordd neu'r rheilffordd. Mae'r llinell gangen ar gael ar hyn o bryd ar gyfer mynediad trên i'r safle, ac nid ydym yn cynnig unrhyw uwchraddiadau mawr i'r llinell gangen. Efallai y bydd angen gwella diogelwch ar groesfannau gwastad presennol yn dilyn diweddariadau asesiad risg. Bydd angen adolygu cliriadau'r llwybr (pontydd) maes o law, gyda photensial am waith os na fydd y mesur angenrheidiol ar gael.
Pryder ynghylch y traffig sy'n defnyddio'r A4109 ac effaith niweidiol ar bentrefi lleol - yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.	Trwy ymgynghori â CNPT, cytunwyd mai'r A4109 (i'r gorllewin o Ddyffryn Cellwen) a'r A465 fydd y prif llwybr adeiladu. Nodir yr un llwybr hefyd fel y llwybr a ddewiswyd pe byddai angen cludo peiriannau a cherbydau ar y ffordd. Ni fyddai llwybr yr A4109 trwy Flaendulais yn cael ei ddefnyddio gan gerbydau trwm.
Pryder ynghylch yr effaith ar yr A4067 - yn arbennig yn ystod y gwaith adeiladu, a allai ddechrau mor gynnar â 6am.	Trwy ymgynghori â CNPT, cytunwyd mai'r A4109 (i'r gorllewin o Ddyffryn Cellwen) a'r A465 fydd y prif llwybr adeiladu. Nodir yr un llwybr hefyd fel y llwybr a ddewiswyd pe byddai angen cludo peiriannau a cherbydau ar y ffordd. Nid llwybr yr A4067 fyddai'r llwybr a gynghorir, felly byddai lefel ddibwys o lif adeiladu yn defnyddio'r llwybr hwn. Bydd oriau gweithredu adeiladu yn cael eu sicrhau trwy amod, ond byddant yn annhebygol o ddechrau mor gynnar â 06:00 o ystyried yr eiddo preswyl gerllaw.
Awgrym y dylid cyfeirio pob cerbyd i'r safle ar hyd yr A465.	Dyma ein dull cytunedig a dewisol.

<p>Beth fydd yn digwydd i'r cyswllt ffordd trwy bont yr olchfa?</p>	<p>Bydd Ffordd Onllwyn (i'r gogledd tuag at yr A4221) yn aros yn ei le, heb newid aliniad. Cerddwyr cyflwynir troedffordd o'r gyffordd â Rhodfa Wembley i'r safle GDRE.</p>
<p>Angen cefnogi trafndiaeth gynaliadwy (teithio llesol a chludiant cyhoeddus) i'r safle.</p>	<p>Bydd yr Asesiad Trafnidiaeth yn nodi mesurau i gefnogi teithio llesol a chludiant cyhoeddus. Bydd dogfen Cynllun Teithio fframwaith hefyd yn cael ei datblygu fel dogfen ategol, a bydd yn amlinellu mesurau a fydd yn cael eu gweithredu i sicrhau'r lefel uchaf o deithiau a wneir trwy ddulliau ac eithrio ceir preifat.</p>
<p>Beth fydd yn digwydd i'r llwybr troed trwy safle'r olchfa? Mae'n darparu mynediad da i gerddwyr i'r siop a'r swyddfa bost leol.</p>	<p>Caiff ei ddargyfeirio/ailaddasu yn y dyluniad fel yr amlinellir yn y cyflwyniad cais a Phennod 12 yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol</p>
<p>Gwella'r rhwydwaith beicio cenedlaethol.</p>	<p>Ymchwilir i lwybrau allanol ac archwilir i gysylltiad â llwybr 43 NCN. Manylir ar fesurau fel hyn yn ystod y broses materion a gedwir yn ôl. Fel rhan o'r cynnig, mae cyfle i sythu darn 'coes ci' y llwybr wrth ochr y safle.</p>
<p>Sicrhau cydweithredu â'r gweithredwyr a'r awdurdodau lleol er mwyn darparu gwell gwasanaethau cludiant cyhoeddus i'r cyflogaion a'r gymuned leol.</p>	<p>Ymgynghorir â gweithredwyr lleol. Lle bydd yn ymarferol a chyraeddadwy, bydd gwasanaethau cludiant cyhoeddus gwell yn cael eu cynnwys fel rhan o'r datblygiad arfaethedig.</p>
<p>Pryder ynghylch oedi a thagfeydd ar y ffyrdd a achosir trwy ddod â threnau i mewn ar y ffordd. Cyfeiriwyd at faterion hanesyddol ynghylch llafnau tyrbinau'n cael eu cludo trwy'r rhwydwaith ffyrdd lleol.</p>	<p>Bydd maint y trenau'n sylweddol is na'r tyrbinau yn Fferm Wynt Maesgwyn. Yn ogystal â'r gallu i ddefnyddio'r rheilffordd i gyflenwi trenau, bydd Cynllun Rheoli Traffig cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu i fod yn ddogfen fyw ar gyfer oes adeiladu a gweithredu'r cyfleuster. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r mesurau a'r lliniaru a fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau effaith cludo nwyddau ar y ffordd.</p>

<p>Pryderon nad oes trenau teithwyr yn yr ardal ac awgrym i ddarparu mynediad i'r safle i drenau teithwyr ac ailagor llinellau trenau Castell-nedd ac Aberhonddu - rheilffordd Cwm Dulais.</p>	<p>Nid ydym yn cynnig i'r trenau teithwyr ddefnyddio'r llinell gangen yn y trefniant presennol. Mae unrhyw gynnig i adfer traffig teithwyr i'r llinell yn debygol o fod angen uwchraddio seilwaith yn sylweddol (ag ailgyflwyno cyffordd yng Nghastell-nedd, gorsafoedd newydd a seilwaith arall). Byddai angen ystyried hwn fel prosiect ar ei ben ei hun, a byddai angen trafodaethau gyda Network Rail ynghylch dichonoldeb.</p>
<p>Angen Cynllun Teithio ar gyfer y safle - mapio lle mae cyflogaion ac ymwelwyr yn byw mewn perthynas â'r safle a chynnig opsiynau ar gyfer cynllunio teithiau er mwyn sicrhau'r newid dulliau teithio mwyaf posib i ffwrdd o deithiau ceir â theithwyr unigol lle bynnag y bo modd.</p>	<p>Bydd Cynllun Teithio Fframwaith yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio. Sicrheir Cynllun Teithio llawn, gan ystyried sylfaen staff y sefydliad defnyddwyr terfynol trwy amod.</p>
<p>Datblygu cynllun rhannu ceir.</p>	<p>Caiff hyn ei gynnwys fel rhan o'r pecyn o fesurau a gyflwynir gan y Cynllun Teithio Fframwaith.</p>
<p>Sŵn</p>	
<p>Mynegwyd pryder ynghylch y sŵn a gynhyrchir - yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.</p>	<p>Mae'r Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cynnwys aseiad cynhwysfawr o effaith sŵn sy'n asesu sŵn (a dirgryniad) yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu y prosiect, yn nodi effeithiau arwyddocâd a'r mesurau lliniaru ar gyfer delio â nhw (Pennod 10).</p> <p>Ar gyfer adeiladu, bydd contractwyr yn rhwym i weithredu o dan god arfer da o'r enw'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu. Defnyddir y Dulliau Ymarferol Gorau i leihau sŵn o weithgareddau adeiladu, gan gynnwys cyfyngiadau ar oriau gwaith yn agos at gymunedau sensitif. Ar gyfer gweithredu'r cyfleuster, mae lliniaru sŵn wedi'i gynnwys yn y cynllun, gan gynnwys rhwystrau sŵn i'r gogledd, i'r dwyrain ac i'r de o'r cylchedau profi.</p>

<p>A yw'r trac arfaethedig yn 'drac gwichian'?</p>	<p>Nid ydym yn cynnig trac gwichian. Cyflawnir mesurau i leihau unrhyw sŵn 'gwichian' posib (a elwir hefyd yn sŵn crwm) o'r cyfleuster.</p>
<p>Awgrymiadau na ddylid cychwyn ar y cyfnod adeiladu nes bod y tir wedi'i roi yn ôl, y cloddweithiau adferol wedi'u gorffen, ac mae'r arolwg synhwyrdd sain wedi'i gynnal.</p>	<p>Mae dilyniant naturiol i weithredu'r cynnig fel yr amlinellir yn y cyflwyniadau, sy'n gweld y tir yn cael ei adfer ochr yn ochr â gweithredu'r cynigion cloddweithiau cyflenwol, sydd at ei gilydd yn paratoi'r safleoedd ar gyfer y datblygiad GCRE.</p> <p>Hefyd, bydd dyletswydd ar y contractwyr sy'n adeiladu'r cynllun i ddefnyddio'r Dulliau Ymarferol Gorau i leihau sŵn adeiladu, ni waeth beth yw canlyniadau'r arolwg sŵn.</p>
<p>Awgrymir ymholiadau lliniaru a rhwystr pridd i atal sŵn yn ystod y gwaith. Ymholiad a fyddai rhai pentrefwyr yn cael iawndal â gwydr dwbl i fynd i'r afael ag effeithiau sŵn.</p>	<p>Mae'r asesiadau sŵn a dirgryniad sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Pennod 10) yn cynnig nifer o fesurau lliniaru wedi'u gwreiddio a mesurau lliniaru eraill i fynd i'r afael â sŵn, gan gynnwys rhwystrau sŵn a 'byndiau' pridd sy'n gweithredu fel rhwystrau sŵn.</p> <p>Mae'r asesiadau'n dangos y byddai'r mesurau hyn yn lliniaru sŵn yn llwyddiannus fel nad oes angen iawndal a/neu fesurau oddi ar y safle.</p>
<p>Oriau gweithredu</p>	
<p>Pryder ynghylch effaith bosib gweithredu 24/7 - yn arbennig sŵn parhaus a'r effaith ar drigolion a'r amgylchedd.</p>	<p>Ni fydd y gallu i weithredu 24/7 yn golygu y bydd y cyfleuster yn weithredol 24/7 mewn gwirionedd. Mae'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cyflwyno set o ragdybiaethau gweithredol yn y penodau cynnar sy'n cyflwyno darlun o'r ffordd y rhagwelir y bydd y cyfleuster yn gweithredu, gan gynnwys oriau a diwrnodau gweithredu. Mae'r rhagdybiaethau hynny wedi bwydo i'r asesiadau effaith, megis ar gyfer sŵn.</p>

<p>Awgrym y dylai'r cyfleuster weithredu am yr un oriau â gwaith â'r mwynglawdd brig.</p>	<p>Mae angen teilwra'r gofynion gweithredol i'r cyfleuster arfaethedig gan ei fod yn ymateb i anghenion marcio a gweithredol sector marchnad gwahanol.</p>
<p>Materion amgylcheddol</p>	
<p>Llygredd aer/llwch.</p>	<p>Asesir y ddau yn fanwl yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Pennod 14) - ar gyfer y camau adeiladu a gweithredol.</p>
<p>Dirgryniad.</p>	<p>Mae'r dirgryniad yn lleihau'n gyflym iawn â phellter. Oherwydd pellteroedd anheddau o'r cyfleuster, ni fydd unrhyw effeithiau dirgryniad o'r cyfleuster.</p>
<p>Llygredd golau - effaith ar Statws Awyr Dywyll. Pa fesurau lliniaru fydd yn cael eu rhoi ar waith?</p>	<p>Mae'r Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (Pennod 9 o'r DA) a'r Atodiad 9E cysylltiedig yn cynnwys asesiad o gyd-destun y cynnig yn ystod y nos. Mae hyn yn cynnwys mesurau i reoli maint, math a gweithrediad goleuadau o ystyried cyd-destun y Warchodfa Awyr Dywyll a chyd-destun y derbynyddion preswyl cyfagos.</p>
<p>Effaith negyddol ar yr amgylchedd - yn arbennig cyfraniad at newid yn yr hinsawdd trwy ddefnyddio/profi peiriannau diesel.</p>	<p>Bydd y cyfleuster profi bron yn gyfan gwbl wedi'i drydaneiddio. Cyfiawnhad allweddol o blaid y cyfleuster newydd yw profi ac ymchwilio i ddulliau newydd ac amgen o bŵer tyniant ar gyfer y rheilffyrdd. Bydd datgarboneiddio'r rheilffyrdd yn un o'r amcanion craidd.</p>
<p>Colli cynefin/bioamrywiaeth - gan gynnwys yr effaith ar rywogaethau gwarchoddedig a dinistrio corysdd mawn pwysig yn genedlaethol ac yn lleol.</p>	<p>Cyflwynir asesiad llawn o effeithiau'r prosiect ar fioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig ym mhennod Bioamrywiaeth y Datganiad Amgylcheddol (Pennod 7). Mae hyn yn cynnwys asesiad ar golli cynefinoedd cors ac yn cyflwyno mesurau lliniaru cysylltiedig a gwella cynefinoedd.</p>

<p>Effaith ar goetir hynafol.</p>	<p>Mae dwy ardal o goetir hynafol wedi'u mapio fel rhai sy'n bresennol ar y safle. Fel yr adroddwyd ym mhennod Bioamrywiaeth y Datganiad Amgylcheddol (Pennod 7), mae un o'r rhain wedi'i fapio'n anghywir. Ni fydd yr ardal sy'n weddill yn cael ei haflonyddu na'i cholli o ganlyniad i'r datblygiad GCRE, a chynhwysir mesurau lliniaru i osgoi difrod gan lygredd a gweithgareddau eraill. Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar goetir hynafol.</p>
<p>Effaith ar y dirwedd leol a golygfeydd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.</p>	<p>Mae'r Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (Pennod 9 o'r DA) yn cynnwys ar gyfer asesiad llawn o'r dirwedd a golygfeydd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.</p> <p>Mae'r ffotogyfosodiadau a ddarperir yn cynrychioli senario blwyddyn 15 lle mae plannu wedi'i sefydlu ac yn darparu ei swyddogaeth o sgrinio'r datblygiad. Mae effeithiau tirwedd a gweledol Blwyddyn 1, lle nad yw plannu wedi'i sefydlu'n ddigonol eto i liniaru effeithiau yn llawn ar ôl 15 mlynedd, wedi'u cynnwys yn y bennod.</p>
<p>Effaith weledol y datblygiad.</p>	<p>Mae Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol wedi'i gynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, sy'n adeiladu ar yr hyn a gynhaliwyd fel rhan o gydsyniad Cloddweithiau Cyflenwol Nant Helen, ac mae'n cyflwyno'r seilwaith cysylltiedig â rheilffyrdd i'r asesiad. Tirlunio strwythurol a dull wedi'i uwchgynllunio o gynnwys yr holl adeiladau sy'n gysylltiedig â'r cynllun ar safle'r Olchfa bresennol.</p>

<p>Effaith ar natur a bywyd gwyllt.</p>	<p>Cyflwynir asesiad llawn o effeithiau'r prosiect ar fioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig ym mhennod Bioamrywiaeth y Datganiad Amgylcheddol (Pennod 7). Mae hyn yn cynnwys asesiad o ystod o effeithiau prosiect ac yn cyflwyno manylion ynghylch mesurau lliniaru a gwella cymesur.</p> <p>Dryw gynnwys mesurau gwella (fel y manylir yn Adran 7.24), rhagwelir effaith weddilliol gadarnhaol gyffredinol ar gyfer rhai nodweddion ecolegol gan gynnwys gwlyptir, glaswelltir corsiog ac infertebratau.</p>
<p>Effaith ar Henebion Cofrestredig - tramffordd Claypon. Pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â Chadw ynghylch cynigion.</p>	<p>Cydweithiwyd â Chadw wrth baratoi cais am Ganiatâd Heneb Gofrestredig, a fydd yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r cais amlinellol GCRE. Felly, mae mesurau wedi'u hymgorffori yn y cynllun i liniaru'r effaith ar yr Heneb Gofrestredig yr effeithir arni.</p>
<p>Pryder ynghylch llifogydd a llif dŵr o'r safle. Pa asesiadau sydd wedi'u cynnal? Pryder ynghylch llygryddion posib o ddŵr ffo o'r dŵr wyneb i'r ardal gyfagos.</p>	<p>Mae'r strategaeth ddraenio yn disgrifio'r asesiadau a gynhaliwyd ar ddalgylchoedd a llifoedd dŵr wyneb presennol, a sut y caiff llifoedd eu rheoli yn ystod achosion o law eithafol, gan ystyried effaith cynhesu byd-eang. Mae'r strategaeth ddraenio a phennod dŵr yr ES yn disgrifio sut y bydd ansawdd dŵr yn cael ei reoli, gan gynnwys llygryddion.</p>
<p>Materion ynghylch draenio a phwysau ar y pibellau presennol. Cyfeiriodd un ymatebydd at enghraifft ddiweddar lle digwyddodd tirlithriad o'r brif ffordd i mewn i Gaehopcyn yn union o dan Nant Helen - syrthiodd y ffordd i ddyfrffordd bresennol, roedd ar gau am fisoedd lawer ac mae'n dal i orlifo yn ystod glaw trwm. Cwestiwn ynghylch lleoliad arglawdd a phyllau</p>	<p>Mae'r mesurau arfaethedig ar gyfer draenio dŵr wyneb yn rheoli llifau o'r safle ac yn lleihau cyfradd y dŵr ffo cyn mynd i mewn i'r cwrs dŵr presennol. Mae'r pyllau'n rhan annatod o'r rhwydwaith rheoli hwn. Lleolir y pwll agosaf rhyw 230m i ffwrdd o'r eiddo agosaf yng Nghaehopcyn, yr ochr arall o'r arglawdd arfaethedig.</p>

<p>Mae pentref Caehopcyn wedi'i achub rhag llifogydd mawr gan fod y ffordd i lawr o Nant Helen yn gweithredu fel dyfrffordd ychwanegol yn ystod glaw trwm. A yw hyn wedi cael ei ystyried a sut bydd yn cael ei ddatrys?</p>	<p>Mae'r cynigion draenio yn y cais hwn a'r cais Cloddweithiau Cyflenwol cydsyniedig yn delio â'r draeniad o'r cloddweithiau a'r trac rheilffordd arfaethedig ac yn ystyried ac yn rheoli'r draenio o'r elfen honno. Deallir bod y cais cynharach ynghylch Adfer y Mwynglawdd Brig yn lleihau'r dalgylch, ac felly dŵr ffo'r dŵr wyneb o safle Nant Helen.</p>
<p>A fydd y pwll gwanhau arfaethedig uwchben Caehopcyn yn dal i fod â chyfaint uchaf o 3,550 metr ciwbig? I ble y bydd yn draenio? Sut bydd y Systemau Draenio Cynaliadwy yn gweithio?</p>	<p>Mae'r pwll gwanhau sydd wedi'i leoli rhyw 230m i'r de o Gaehopcyn wedi'i gynllunio i gynnwys hyd at 3,550m³ yn ystod glaw eithafol, gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd. Am y rhan fwyaf o'r amser, bydd y pwll yn wag ac yn sych. Trafodir y manylion llawn yn y strategaeth ddraenio, fodd bynnag, yn y bôn, bydd dŵr wyneb yn cael ei godi o gyfres o ffosydd ar ymylon yr arglawdd a hefyd o ddraenio'r trac, bydd yn cael ei drosglwyddo i'r pwll gwanhau lle bydd all-lifau'n cael eu rheoli trwy strwythur hydrologig cyn eu gollwng i'r cyrsiau dŵr presennol.</p>
Colli tir comin	
<p>lawndal am gollu hawliau pori.</p>	<p>Mae opsiynau ar gyfer delio â'r tir comin presennol yn cael eu hasesu gan Gyngor Sir Powys ar ran grŵp cyd-fenter y prosiect â'r bwriad o gytuno ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer ymgynghori â phorwyr.</p>
<p>Yr angen i adfer y tir yn dir comin neu ddarparu tir comin amgen yn y cyffiniau lleol.</p>	<p>Mae opsiynau ar gyfer delio â'r tir comin presennol yn cael eu hasesu gan Gyngor Sir Powys ar ran grŵp cyd-fenter y prosiect â'r bwriad o gytuno ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer ymgynghori â phorwyr.</p>
Ystyriaethau safle	

<p>Tirffurf - pryder ynghylch uchder yr arglawdd, ansefydlogrwydd y tir a thirlithriadau posib.</p>	<p>Cafodd hyn ei ystyried a'i drin yn ystod y cais Cloddweithiau Cyflenwol. Bydd yr arglawdd yn cael ei osod a'i gywasgu mewn haenau, ei feincio i'r ddaear bresennol, â mesurau draenio gwaelodol a llethrau ochrol yn cael eu ffurfio ar raddiant bas er mwyn sicrhau sefydlogrwydd. Mae amodau wedi'u cynnwys yng nghais y cloddwaith yn ymwneud â dylunio a chymeradwyo'r argloddiau.</p>
<p>A oes unrhyw newidiadau i'r arglawdd arfaethedig uwchben Caehopcyn?</p>	<p>Nid oes unrhyw newidiadau i'r arglawdd arfaethedig gan y rhai a gyflwynwyd fel rhan o'r cais Cloddweithiau Cyflenwol. Bydd mân addasiadau ar ben yr arglawdd i hwyluso'r gwaith adeiladu trac.</p>
<p>Pryder bod mwyngloddio brig a thir mynydd yn gwneud y ddaearyddiaeth ac amodau'r ddaear yn anaddas ar gyfer y datblygiad arfaethedig.</p>	<p>Mae'r defnyddiau blaenorol fel safle mwyngloddio brig ynghyd â'r tir wedi'u hystyried hyd yma, a byddant yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod y broses fanwl ddilynol o ddylunio a chymeradwyo. Mae'r mesurau a gynigir yn addas ar gyfer amodau'r safle.</p>
<p>Ni ddylid gwneud newidiadau tirffurf o'r maint hwn ar gyfer prosiect posib pan nad ydynt wedi'u cynllunio'n ddaear-dechnegol at y diben hwnnw.</p>	<p>Mae dyluniad y cloddweithiau wedi'i wneud gan arbenigwyr peirianeg daear-dechnegol a sifil profiadol, ac mae'r mesurau a gynigir yn ystyried natur, graddfa ac</p>

<p>Ym Mholisi Cynllunio Cymru 10 (PPW) mae 6.9.13 yn nodi pryd yn ystyried cynigion datblygu y dylai awdurdodau cynllunio eu hystyried ynghylch natur, graddfa a maint y peryglon arwyneb ac is-wyneb a allai beri risgiau i iechyd a'r amgylchedd, er mwyn sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • na ymgymerir â datblygiad newydd heb ddealltwriaeth o'r risgiau, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r defnydd tir blaenorol, llygredd, dŵr daear, risg llifogydd, ymsuddiant, tirlithriadau, cwympiadau creigiau, allyriadau nwyon oherwydd mwyngloddio a thirlenwi a dŵr daear yn codi o fwyngloddiau segur. • nid yw datblygiad yn digwydd heb adferiad neu ragofalon priodol. 	<p>maint y peryglon ar y wyneb a'r is-wyneb. Bwriedir ymchwiliad daear i gadarnhau'r amodau a ragwelir. Bydd y rhain yn parhau i gael eu hystyried yn y cam dylunio manwl dilynol.</p>
<p>Pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r safle a sut y bydd hyn yn cael ei reoli unwaith y bydd y safle wedi'i ddatblygu ac yn weithredol?</p>	<p>Perchnogion a gweithredwyr y cyfleuster yn y dyfodol fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r safle.</p>
<p>Pryder y bydd y cyfleuster arfaethedig yn tarfu ar y cyflenwad i'r gymuned leol.</p>	<p>Trafodwyd gydag awdurdodau statudol a fydd yn cyflenwi cyfleustodau i'r safle a phenderfynwyd ar fesurau i sicrhau bod cyflenwad digonol ar gael.</p>
<p>A ellir cael trydan ar gyfer y prosiect o ffermydd gwynt lleol?</p>	<p>Mae trydan o ffermydd gwynt yn cael ei reoleiddio'n agos ac fel arfer mae'n cael ei fwydo i'r rhwydwaith trydan presennol o dan gytundebau cysylltu a thariff ar wahân.</p> <p>Efallai y bydd yn bosib darparu cysylltiad uniongyrchol, ond gall ffurfio cysylltiad o'r fath a sicrhau cytundeb fod yn heriol ac yn gostus.</p>
<p>Gofynion adeiladu</p>	
<p>Cytuno â'r gofyniad i'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) gael ei gytuno gyda'r ALI, cyn i'r gwaith ddechrau.</p>	<p>Wedi'i nodi.</p>

Dylid ymgymryd â chyfnodau gwaith adeiladu a pheirianeg fel rhan o'r Cytundeb Cenedlaethol NAECI. Mae'r cytundeb hwn yn nodi arferion gwaith gorau; cyfraddau cyflog, gan gynnwys lwfansau a gwelliannau; ac mae'n cynnwys proses anghydfodau sydd wedi'i datblygu'n dda.	Wedi'i nodi.
Dyluniad manwl	
Angen dylunydd tirwedd da sy'n gweithio ochr yn ochr â phensaer da i ddylunio parcdir agored, tirweddau diwydiannol ac adeiladau syml ond wedi'u hystyried yn dda.	Yn y cam materion a gedwir yn ôl, ar ôl rhoi caniatâd amlinellol, bydd y dirwedd a dyluniad y ffurf adeiledig yn cael eu symud ymlaen gyda'i gilydd i greu uwchgynllun manwl integredig.
Pryder y bydd ffensys metel yn dinistrio'r dirwedd.	O ystyried bod y cais yn amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl, mae cyfle i archwilio datrysiadau ffensio yn ystod y camau dylunio dilynol. Bydd y fanyleb ar gyfer unrhyw ffensys yn cynnwys yr angen i fodloni safonau neu reoliadau perthnasol ar gyfer diogelwch, diogeled, oes y dyluniad ac estheteg.
Pryder y bydd y cyflymder y bydd trenau'n cael eu profi arno'n achosi risg iechyd a diogelwch.	Mae'r cyflymderau llinell arfaethedig yn gymesur â'r rhai ar rwydwaith rheilffyrdd y DU, ac felly byddai unrhyw risg iechyd a diogelwch yn cyfateb i weddill y rheilffyrdd yn y DU. Mewn gwirionedd, gan y cynigir bod hwn yn safle diogel dan reolaeth lawn, dylai'r risgiau iechyd a diogelwch fod yn llai arwyddocaol.
Awgrymir darparu dehongliad ar y safle i gydnabod/eglwro Tramffordd Coedwig Aberhonddu.	Mae hon yn ffurfio rhan o'r cais am ganiatâd Heneb Gofrestredig i Gadw.
Gofynnwyd a yw trac profi 110mya yn ddigon cyflym.	Ymchwiliom i weld a allem gyflawni cyflymder llinell uwch ar y ddolen fwy, ond er mwyn cyrraedd 125mya, er enghraifft, byddai wedi bod yn ofynnol i ni gael dolen sylweddol fwy a fyddai'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r safle.
Arferion gwaith/hyfforddiant	
Dylid cymryd y camau adeiladu a pheirianeg fel rhan o Gytundeb Cenedlaethol NAECI.	Wedi'i nodi.

Mae'r cytundeb hwn yn nodi arferion gwaith gorau; cyfraddau cyflog, gan gynnwys lwfansau a gwelliannau; ac mae'n cynnwys proses anghydfodau sydd wedi'i datblygu'n dda.	
Gwaith contract ac is-contract gan gyflogwyr undebol yn lleol a chyflogwyr sy'n darparu safon uchel o gyflogaeth fel yr amlinellwyd gan y comisiwn gwaith teg.	Wedi'i nodi.
Cyfle am hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod i staff y rheilffordd.	Wedi'i nodi.
Bydd angen sgiliau newydd ar staff, gan gynnwys sgiliau digidol sylfaenol, peirianeg meddalwedd, dadansoddeg data, peirianeg systemau, seiberddiogelwch a gwydnwch, a diagnosteg a monitro.	Wedi'i nodi.
Ymgysylltu â'r gymuned	
Angen ymgysylltiad parhaus â'r gymuned leol a rhannu mwy o wybodaeth. Dylid hefyd archwilio ymgysylltiad â'r boblogaeth iau er mwyn cynyddu cynaladwyedd y cynnig yn y dyfodol o ran cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.	Bydd yr ymgysylltu'n parhau trwy'r broses gynllunio/gydsynio, a heb amheuaeth y tu hwnt i weithredu'r cynllun fel rhan o ddyluniad manwl, adeiladu a gweithrediad y cyfleuster yn y pen draw.
Angen am ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid - Comisiwn Dylunio Cymru, Peirianeg Prifysgol Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg a Gwent	Bydd yr ymgysylltu'n parhau trwy'r broses gynllunio/gydsynio, a heb amheuaeth y tu hwnt i weithredu'r cynllun fel rhan o ddyluniad manwl, adeiladu a gweithrediad y cyfleuster yn y pen draw.
Cynnwys trigolion lleol yn y broses o wneud penderfyniadau - argymhellir pwyllgor monitro ffurfiol i leihau problemau posib.	Wedi'i nodi.
Mae'n bwysig monitro ac adrodd yn rheolaidd ar effeithiau a diogelwch.	Wedi'i nodi.
Mae angen i breswylwyr allu cyrchu monitro llygredd ar-lein.	Wedi'i nodi.
Y broses ymgynghori	
Mynegwyd pryder ynghylch ymgynghori yn ystod y pandemig gan fod hyn yn	Cynhaliwyd proses Ymgynghori Cyn Ymgeisio sy'n cydymffurfio'n llawn

<p>ffrwyno potensial ar gyfer cyfarfodydd/digwyddiadau wyneb yn wyneb.</p>	<p>yn gyflin â chanllawiau Llywodraeth Cymru a oedd ar waith ar y pryd ar gyfer cynnal ymgynghoriad ar gais cynllunio cyn ymgeisio yn ystod y 'cyfnod argyfwng'.</p> <p>Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw ymgysylltu wyneb yn wyneb yn ofyniad statudol yn y broses Ymgynghori Cyn Ymgeisio (hyd yn oed cyn cyfyngiadau Covid).</p>
<p>Rhai aelodau o'r gymuned yn methu ag ymgysylltu oherwydd hunan-ynysu, diffyg sgiliau TG a dim mynediad i'r rhyngrwyd.</p>	<p>Roedd cyfle i ymgynghoreion ofyn am gopiâu caled o'r cyflwyniadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, a gwnaeth rhai pobl hynny. Roedd rhif ffôn hefyd i bobl ei ffonio os nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd neu at gyfrifiadur.</p>
<p>Awgrymwyd y dylid bod wedi cynhyrchu delweddau a modelau CAD i alluogi preswylwyr i ddeall y cynllun.</p>	<p>Mae'r cais yn amlinellol ac mae pob mater wedi'u cadw'n ôl. Oherwydd hynny, mae manylion y dyluniad yn eglurhaol. Cyflwynwyd fideo CGI ynghyd ag uwchgynllun eglurhaol a chyfres o gynlluniau eraill ar dudalen we'r prosiect.</p> <p>Ynghyd â'r ffaith bod ymgynghori yn yr ardal ar gamau cynharach o ddatblygiad y cynllun yn rhoi darlun clir o elfennau'r prosiect.</p>
<p>Gormod o ddogfennau i'w dehongli.</p>	<p>Mae hwn yn gais cynllunio mawr sy'n cael ei gefnogi gan Asesiad eang o'r Effaith Amgylcheddol. Mae cais o'r math hwn yn galw am lawer iawn o adrodd ar y gwaith asesu sy'n sail i'r cynnig.</p> <p>Roedd dogfen ymgynghori yn rhoi trosolwg o'r cynigion, y buddion economaidd a'r ystyriaethau allweddol ynghyd â chrynodeb annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol hefyd ar gael ar dudalen we'r ymgynghoriad.</p>
<p>Defnyddio'r cyfleuster</p>	
<p>Gallai'r cyfleuster hwn ddod yn faes profi i wledydd eraill.</p>	<p>Wedi'i gytuno.</p>

Dylai mynediad i'r cyfleuster fod yn agored i bawb ar sail gyfartal.	Y bwriad yw i'r cyfleuster fwynhau mynediad i'r farchnad agored.
Mae'r safle yn anaddas	
Safleoedd addas eraill ar gyfer y cyfleuster e.e. Siemens yn Scunthorpe.	Deallir mai GCRE yw'r unig brosiect cyfleuster profi o'i fath sy'n cael ei ddwyn ymlaen yn y DU.
Safle amhriodol.	Pwrpas y cais cynllunio a'r broses Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol yw arddangos derbynoldeb y cynnig ar y safle yn nhermau cynllunio. Mae'r diwydiant rheilffyrdd eisoes wedi cymeradwyo ei addasrwydd yn gadarn o safbwynt gweithredol, mater i'r penderfyniad cynllunio nawr yw penderfynu ar addasrwydd o safbwynt cydsynio.
Defnyddio'r safle at ddibenion twristiaeth a hamdden.	Mae'r cynnig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfleuster profi a dilysu rheilffyrdd.
Dim digon o le i redeg trenau hyd at 100mya.	Gallwn gadarnhau bod y cyflymderau llinell a gynigir yn gyraeddadwy ar y dolenni fel y'u dyluniwyd.
Hyfywedd y prosiect	
Sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu?	Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio opsiynau a chyfleoedd ariannol a masnachol, fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.
Pwy fydd yn berchen ar y safle?	Mae hyn i'w benderfynu.
Angen sicrhau hirhoedledd y Ganolfan	Mae'r cyfleuster yn gynnig tymor hir, y rhagwelir y bydd ganddo oes weithredol o 60 mlynedd.
Angen cwmni gweithrediadau cymwys, blaengar.	Wedi'i gytuno.
A fydd yn dod i Gymru yn lle'r safle ger Scunthorpe?	Deallir mai GCRE yw'r unig brosiect cyfleuster profi o'i fath sy'n cael ei ddwyn ymlaen yn y DU.
Pa asesiad ychwanegol sydd wedi'i wneud o'r farchnad yn y DU ehangach ac yn rhyngwladol?	Mae Achos Busnes Amlinellol sydd wedi'i baratoi ar gyfer y cynnig gan

	Lywodraeth Cymru ac sydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU.
Dim datblygiad	
Byddai'n well pe byddai'r coetir yn cael ei adfywio	Mae'r cynnig yn cynnwys plannu coetir a choed ychwanegol.
Adfer y safle i'w gyflwr naturiol.	Bydd y safle'n cael ei adfer cyn ailddefnyddio rhan ar gyfer y cyfleuster GCRE.

Sylwadau eraill:

Sylwadau	Ymateb
Gwrthwynebwyd y defnydd o'r term 'cymuned ddifreintiedig' gan fod llawer o bobl â chymwysterau da yn yr ardal.	Wedi'i nodi, ond mae hwn yn gategoreiddiad o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.
Ymgorffori'r saith nod lles yng nghynigion y datblygiad.	Mae'r cynnig yn ymateb yn dda i'r nodau a'r dulliau gweithio fel yr amlinellir yn y cyflwyniad.
Sicrhau ei fod wedi'i ledaenu'n gyfartal rhwng y gogledd a'r de.	A yw'r sylw hwn mewn perthynas â Chymru neu'r DU?
Ymholiad ynghylch pryd y bydd Celtic Energy yn dod â'i weithrediad i ben.	Mae hwn yn fater i Celtic Energy a'r awdurdodau perthnasol, ond mae'n hysbys y bydd gweithrediadau mwyngloddio'n dod i ben yn 2021.
Defnyddio'r Feddygfa wag yng Nghoelbren fel swyddfa ar gyfer y cyfnod adeiladu.	Wedi'i nodi.

Yr iaith Gymraeg:

4.4.1. Gofynnodd y ffurflen adborth am effeithiau y gallai'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd arfaethedig eu cael ar y Gymraeg. Nodir manylion llawn yr adborth yn Atodiad 21.

4.4.2. Roedd yr effeithiau cadarnhaol a awgrymwyd yn cynnwys cynyddu proffil yr iaith Gymraeg ag arwyddion dwyieithog, cyflogaeth bosib ar gyfer pobl ddwyieithog leol a hwyluso cyfarfodydd dwyieithog. Roedd eraill yn poeni y byddai'r prosiect yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, gan y byddai pobl yn cael eu cyflogi o'r tu allan i'r ardal, nad ydynt yn siarad nac yn deall yr iaith a diwylliant Cymru. Awgrymwyd y dylid cyflwyno diwylliant Cymru a chynyddu ymwybyddiaeth o iaith Cymru gyda'r holl gyflogeion yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ddysgu Gymraeg.

5. Casgliadau

- 5.1.1. Cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu/ymgyngori helaeth ar gynigion ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, â gwybodaeth wedi'i phostio i dros 9,500 o gyfeiriadau yn yr ardal leol a dros 500 o bobl yn cymryd rhan yn y broses - trwy fynychu digwyddiadau yn ystod yr ymgysylltu cynnar a darparu adborth i'r ddau gam ymgysylltu/ymgyngori.
- 5.1.2. Ar bob cam o'r ymgysylltu/ymgyngori roedd lefel uchel o gefnogaeth i'r cynnig. Y prif bethau cadarnhaol a amlygwyd oedd y buddion economaidd ehangach o ran swyddi i bobl leol, cyfleoedd hyfforddi, hybu twristiaeth leol a chefnogaeth i'r gadwyn gyflenwi leol. Pwysleisiodd adborth arall fod y cynnig yn cynnig cyfle untro i'r ardal gefnogi adfywio'r safle tir llwyd hwn ac arddangos arloesedd yn y diwydiant rheilffyrdd.
- 5.1.3. Mae rhai pobl yn parhau i wrthwynebu'r egwyddor o ddatblygu ar y safle, gan ei fod yn well ganddynt ei adfer i gefn gwlad, a mynegodd eraill bryderon, yn bennaf mewn perthynas â materion amgylcheddol gan gynnwys sŵn, llygredd aer, dirgryniad, traffig, llygredd golau ac effaith weledol, a allai effeithio ar amwynderau a lles y rhai sy'n byw yn agos at y safle.
- 5.1.4. Mae sylwadau wedi'u hadolygu a'u hystyried ac ymatebwyd iddynt trwy'r cais cynllunio. Cynhaliwyd sawl arolwg ychwanegol (gan gynnwys arolygon yn ystod y nos ac arolygon traffig) yn ogystal â diweddarau'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), y Datganiad Amgylcheddol a'r Asesiad Traffig i gefnogi cyflwyno'r cais cynllunio amlinellol.

Atodiadau Adroddiad PAC GCRE

Atodiad 1: Llythyr gwahoddiad rhagolwg rhanddeiliaid ymgysylltu cynnar

Atodiad 2: Llythyr cymunedol ymgysylltu cynnar

Atodiad 3: Parth ymgynghori cymunedol ymgysylltu cynnar

Atodiad 4: Ffurflen ymateb ymgysylltu cynnar

Atodiad 5: Hysbysebion ymgysylltu cynnar

Atodiad 6: Posterï ymgysylltu cynnar

Atodiad 7: Hysbysiad safle ymgynghori cyn ymgeisio

Atodiad 8: Lleoliadau hysbysïadau safle ymgynghori cyn ymgeisio

Atodiad 9: Llythyr ymgynghori cyn ymgeisio at ymgynghorwyr arbenigol a hysbysiad cysylltiedig

Atodiad 10: Rhestr o'r ymgynghoreion arbenigol yr ymgynghorwyd â hwy

Atodiad 11: Ymgynghoreion cymunedol, preswylwyr a thirfeddianwyr cyfagos, llythyr ymgynghori cyn ymgeisio a hysbysiad cysylltiedig

Atodiad 12: Rhestr o ymgynghoreion cymunedol

Atodiad 13: Rhestr o dirfeddianwyr

Atodiad 14: Rhestr o gymdogion y ffiniau

Atodiad 15: Parth ymgynghori cymunedol yr ymgynghoriad cyn ymgeisio

Atodiad 16: Ffurflen ymateb yr ymgynghoriad cyn ymgeisio

Atodiad 17: Hysbyseb y South Wales Echo yr ymgynghoriad cyn ymgeisio

Atodiad 18: Hysbyseb y South Wales Guardian yr ymgynghoriad cyn ymgeisio

Atodiad 19: Datganiad i'r Wasg

Atodiad 20: Ymatebion gan Ymgynghoreion Arbenigol

Atodiad 21: Adborth ar yr Iaith Gymraeg

Atodiad 1: Llythyr gwahoddiad rhagolwg rhanddeiliaid ymgysylltu cynnar

2 Gorffennaf 2019

Annwyl

Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd -ymgysylltu'n gynnar - gwahoddiad i ddiwyddiad rhagolwg ar gyfer rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth a Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle cloddio glo brig a golchfa lo yn Onllwyn a Nant Helen ar flaenau Cwm Dulais.

Mae'r cynigion yn cynnwys dau gylch profi rheilffordd drydanol, canolfan ymchwil a gweithrediadau, trac profi llinellol cyflymder isel, ynghyd a gallu hyfforddi, cynnal, storio a datgomisiynu a fyddai'n gweithredu fel sbardun i arloesedd, buddsoddiad a thwf yn y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, Y Deyrnas Unedig ehangach ac yn rhyngwladol.

Bellach, ar 61 cynnal 'profion marchnad feddal' helaeth a rhanddeiliaid y diwydiant rheilffyrdd, rydym yn cynnal ymgysylltiad cynnar a phreswylwyr ac ystod eang o randdeiliaid lleol a chymunedol i ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig a'r dyluniad cychwynnol. Bydd hyn yn helpu i nodi sut y gallwn fwyafu'r buddion cymdeithasol ac economaidd a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

